

**Adfywio yw'r Flaenoriaeth**  
**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**  
**Maniffesto 2021**

## Cyflwyniad

Mae ein gwlad mewn rhigol. Mewn cymdeithas deg, dylai fod gennym yr hyn sy'n ofynnol i lwyddo; rhywle y gallwn ei alw'n gartref, mynediad at wasanaethau cyhoeddus effeithlon, addysg ragorol a digon o arian yn ein pocedi. Ond mae hynny'n dra wahanol i realiti cynifer o bobl yn ein gwlad niheddiw.

Mae pandemig Covid-19 wedi bod yn anodd i bawb, ac mae gennym lawer o waith i'w wneud. Rydyn ni'n deall: teimladau o rwystredigaeth, colled, siom, gorbryder, rhyddhad, gobaith.

Fel chi, rydym am ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysicaf i chi a'ch teulu yn dilyn blwyddyn anodd. Rhaid dechrau trwy godi Cymru ar ei thraed.

Mae gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru gynllun cryf ac uchelgeisiol i gymunedau ledled Cymru. Cynllun sy'n symud Cymru ymlaen at normal newydd ble bydd gan bawb gyfle i ffynnu. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn blaenoriaethu adfywio.

### **Adfywio er budd ein Heconomi – helpu ein stryd fawr a chanol trefi a dinasoedd, a chynorthwyo busnesau bychan i ffynnu ac addasu.**

Yn wyneb Covid-19 a Brexit, byddwn ni'n cynorthwyo busnesau, canol dinasoedd a threfi a'r stryd fawr ledled Cymru fel y gall pobl leol a'n busnesau adfywio a ffynnu. Byddwn yn sicrhau fod cyllid ar gael i fuddsoddi mewn cysylltedd digidol, ailagor adeiladau nad yw mewn defnydd, buddsoddi mewn seilwaith, a chreu manau hygyrch a chroesawgar a wnaiff gynnal swyddi, busnesau a gweithwyr.

### **Adfywio er lles ein Planed – Creu pecyn buddsoddi gwerth £1 biliwn y flwyddyn i frwydro argyfwng yr hinsawdd.**

Mae'r pandemig wedi bod yn anodd i bob un ohonom ni, ac mae'n teimlo fod yr holl faterion pwysig eraill wedi cael eu rhoi i'r neilltu - ond mae'r cloc yn tician ar ddyfodol ein planed. Fe wnawn ni bopeth yn ein gallu i amddiffyn ein planed er budd cenedlaethau'r dyfodol, ac wrth wneud hynny, byddwn ni'n ysgogi ein hadferiad economaidd.

### **Adfywio Gofalgar – Byddwn yn darparu gofal iechyd meddwl brys 24/7.**

Mae ein hymateb i Covid-19 wedi'n gorfodi i aberthu llawer o bethau, ac mae iechyd meddwl a lles nifer ohonom wedi dioddef. Byddwn yn creu Cymru fwy gofalgar trwy gefnogi ein gofalwyr a buddsoddi i gadw pobl yn iach. Byddwn yn datblygu cymdeithas ofalgar ac yn gwella bywydau miliynau, gan helpu pobl i adfywio yn dilyn trawma y llynedd.

Eich blaenoriaethau chi yw ein blaenoriaethau ni. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweithio'n ddi-baid i sicrhau y gallwn ni edrych ymlaen yn obeithiol at y dyfodol wedi blwyddyn anodd.

Adfywio ein heconomi, ein hiechyd a'n lles, a'n planed bydd ein blaenoriaeth.

Yn gywir  
Jane Dodds

## **Cynnwys**

1. Adfywiad Gofalgar
2. Adfywiad ym maes Addysg
3. Adfywiad er lles ein Heconomi
4. Adfywiad er lles ein Planed
5. Adfywiad er lles ein Cymunedau
6. Adfywiad o ran y Gymraeg
7. Adfywiad sy'n Ystyriol o Blant
8. Adfywiad sy'n Seiliedig ar Hawliau
9. Adfywiad Democratiaidd
10. Atodiad 1: Blaenoriaethau Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ar gyfer y Chweched Senedd
11. Atodiad 2: Atodiad Costau

## Adfywiad Gofalgar

Mae ein dyled i'n gweithluoedd iechyd a gofal yn enfawr, a hefyd i'r gofalwyr di-dâl niferus yn ein cymunedau. Mae Covid-19 wedi dangos pa mor hanfodol yw ein GIG, ond mae wedi amlygu'r heriau mae'n ei wynebu hefyd. Mae Adfywio Gofalgar yn golygu gwerthfawrogi staff, gofalwyr, a'r gwirfoddolwyr niferus sy'n cadw pobl yn gysylltiedig.

Mewn Cymru fwy gofalgar, bydd gan bobl fynediad di-dor at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Bydd gan staff yr adnoddau, y gydnabyddiaeth a'r cymorth i alluogi pawb i fyw yn iach ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mewn gofal sy'n diwallu ein hanghenion unigol trwy gydol ein bywydau: cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol a meddyliol; ble nad yw eich cod post yn pennu pa mor iach ydych chi na pha mor hir y byddwchyn byw; system gofal sy'n wirioneddol drugarog, yn cael ei hariannu'n briodol, ac yn gynhwysol.

Wrth i ni adael effeithiau gwaethaf y pandemig ar ein hôl, mae gennym ni gyfle i greu Cymru fwy gofalgar.

### Byddwn yn:

- 1. Creu newid sylweddol yn ein dull o ymdrin ag iechyd meddwl, gan gynyddu cyfran y cyllid i 13% o holl wariant y GIG erbyn 2028**
- 2. Cytuno ar amrywiaeth o gynlluniau adfywio ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol gyda gweithluoedd a chleifion i sicrhau y caiff pobl sydd wedi profi oedi neu sgil-ffeithiau ar eu gofal eu cynorthwyo cyn gynted ag y bo modd.**
- 3. Sicrhau fod yr holl weithwyr gofal yn cael eu talu'n deg trwy sicrhau cyflog ac amodau cyfartal ar draws y GIG a gofal cymdeithasol a sicrhau y telir y Cyflog Byw Go lawn i bob gweithiwr gofal.**

### Ymateb i Covid-19

Dros nos, fe wnaeth ein system iechyd a gofal weddnewid gwasanaethau mewn ymateb i Covid-19. I lawer, mae hynny wedi golygu newidiadau i'r gofal maent yn eu derbyn ac oedi o ran llawdriniaethau a thriniaethau, gan achosi ansicrwydd. Ni fyddwn yn dychwelyd i'r sefyllfa arferol, ac mae'n rhaid i ni gynllunio i ateb heriau parhaus Covid-19 a sicrhau fod y sawl sy'n disgwyl am ofal yn cael y driniaeth ofynnol cyn gynted ag y bo modd.

Mae creithiau a thrawma Covid-19 yn rhedeg yn ddwfn ledled Cymru – ac ni all yr ymateb fod yn gyfyngedig i wasanaethau iechyd meddwl proffesiynol yn unig. Rhaid i ni greu cymdeithas sy'n ymwybodol o drawma gyda phob rhan o'n cymdeithas yn fwy gofalgarg. Fe wnaiff y newid sylweddol hwn yn ein cymdeithas helpu i atal iechyd meddwl rhag gwaethygu a datblygu'n argyfwng.

Mae'r pandemig wedi taflu goleuni ar yr angen i wella mynediad at gymorth ar adeg profedigaeth. Mae'n rhaid i ni gynllunio i ymateb i'r heriau parhaus i sicrhau fod y sawl sydd angen cymorth yn gallu cael hynny cyn gynted ag y bo modd.

Mae teuluoedd sydd ag incwm is wedi profi straen a chaledi ariannol sylweddol yn ystod y pandemig. Gall darparu cwnsela perthnasau wneud gwahaniaeth sylweddol i gynorthwyo teuluoedd i adfywio wedi'r llynedd.

### **Byddwn yn:**

- Cytuno â gweithluoedd a chleifion ynghylch amrywiaeth o gynlluniau adfywio ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol i sicrhau y caiff pobl sydd wedi profi oedi neu effeithiau ar eu gofal eu cynorthwyo cyn gynted ag y bo modd, gan gynnwys dulliau penodol o ymdrin â chyflyrau a chlefydau megis canser.
- Cynllunio i ddarparu cwnsela yn rhad ac am ddim i gyplau a darparu platfform i sicrhau dyfodol mwy cydnerth i deuluoedd.
- Datblygu cynllun i wella mynediad at ystod eang o wasanaethau cwnsela a therapïau i'r sawl sy'n profi galar cymhleth.

### **Y gofal priodol, ar yr adeg briodol, yn y lle priodol**

Gall ymyriadau a diagnosis cynnar achub bywydau, ond yn sgil yr amseroedd aros hir i gael apwyntiadau cyntaf, ac oedi hirach fyth i gael atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol, mae gormod o bobl yn methu cael y gofal sydd ei hangen arnynt ar yr adeg briodol.

Rhaid i ddarpariaeth gofal lleol fod yn elfen allweddol o'n system iechyd. O wella mynediad at feddygon teulu trwy cyllid, recriwtio a thechnoleg well, i gynorthwyo fferyllfeydd cymunedol i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau, byddwn yn sicrhau system sy'n blaenoriaethu darparu gofal yn lleol.

Byddwn yn galluogi gwasanaethau ar draws y GIG a'r system gofal i gydweithio'n well trwy gyfrwng cydweithfeydd gofal iechyd a thrwy gyflwyno un cofnod iechyd ar gyfer cleifion ac e-bresgripsiynau.

Mae gan dechnoleg gyfraniad sylweddol i'w wneud at gadw pobl yn iach yn hirach trwy wella mynediad at wasanaethau meddygol, a helpu pobl i fonitro eu hiechyd gartref. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i ddatblygu telefeddygaeth ac apwyntiadau o bell, gan gynnwys cyngor ar erthyliadau a Gwasanaeth Rhywedd Cymru.

Byddwn yn cydweithio â chleifion i sicrhau mynediad cyfartal fel nad oes neb yn mynd heb ofal o ganlyniad i ddiffyg mynediad at dechnoleg neu lythrennedd digidol gwael. Byddwn ni hefyd yn buddsoddi mewn gwella systemau 'swyddfa gefn' i wella profiadau cleifion.

### **Hawl i gael gofal iechyd**

Byddwn yn cyflwyno Hawl i Adsefydlu i sicrhau y caiff pawb fynediad at wasanaethau adsefydlu fel mater o drefn, gan gynnwys mynediad at wasanaethau yn y gymuned a thechnolegau. Bydd hyn yn sicrhau y gall mwy o bobl fyw yn annibynnol ac yn iachach yn hirach.

Byddwn yn defnyddio ein gwasanaethau iechyd datganoledig i amddiffyn hawliau pobl i gyrchu gwasanaethau heb i neb eu barnu a heb ofn. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau na wnaiff ein gwasanaethau rannu data mewn perthynas â chamau allgludo, fel y bydd ffoaduriaid ac eraill yn teimlo'n ddiogel wrth droi at wasanaethau iechyd.

Byddwn yn deddfu yng Nghymru i sicrhau mynediad i bobl ifanc at wasanaethau y mae cenedlaethau blaenorol wedi brwydro amdanynt. Byddwn yn amddiffyn rhagdybiaeth cymhwysedd Gillick, sy'n caniatáu i bobl ifanc gyrchu gwasanaethau iechyd heb ganiatâd rhieni, yn enwedig mewn perthynas ag erthyliadau ac ailbennu rhywedd.

Mae'r frwydr yn erbyn HIV wedi dod yn ei flaen dros y blynyddoedd diwethaf. Mae diagnosau newydd wedi syrthio ac mae datblygiad PrEP wedi golygu bod gennym mwy o arfau nag erioed i'w frwydro. Ond rhaid gwneud mwy er mwyn gwireddu ymrwymiad Cymru i roi diwedd ar unrhyw achosion newydd o HIV yng Nghymru. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn llunio cynllun i roi diwedd ar drosglwyddiadau newydd o HIV erbyn 2030, creu rhwydweithiau Fast Track Cities, a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu.

### **Iechyd meddwl a lles**

Bydd un o bob pedwar o bobl yn dioddef o iechyd meddwl gwael yn ystod eu hoes. O ganlyniad i stigma iechyd meddwl, caiff pobl eu hanwybyddu'n rhy aml pan fyddant yn mynegi pryderon. Gall y trawma y mae cynifer ohonom wedi'i brofi trwy gydol y

pandemig arwain at effaith barhaus, gan gynyddu'r galw am wasanaethau sydd eisoes dan bwysau.

Byddwn yn defnyddio dull gyfannol i ymdrin â'r ffactorau cymdeithasol a'r achosion sydd wrth wraidd iechyd meddwl a lles gwael, gan gysylltu pobl ag ystod o wasanaethau cymorth dan arweiniad gweithwyr proffesiynol a chymunedau.

Byddwn ni'n creu newid sylweddol yn ein dull o ymdrin ag iechyd meddwl, gan gynyddu cyfran y cyllid i 13% o'r holl wariant ar iechyd erbyn 2028, gan sicrhau:

- System gofal iechyd meddwl brys 24/7
- Gwella mynediad a dewis mewn perthynas â therapïau seicolegol
- Lleihau amseroedd aros am wasanaethau

Buddsoddiad tymor hir mewn gwasanaethau a all helpu i atal yr angen am ofal brys a hybu lles gwell, a lleihau gwariant mewn meysydd eraill yn y tymor hir.

Mae pobl ifanc yn benodol yn wynebu anawsterau. Yn ogystal â mwy o ffocws ar iechyd a lles mewn ysgolion, byddwn ni'n darparu cynnig gweithredol o eiriolaeth i gynorthwyo pobl ifanc i gael y gofal sydd ei hangen arnynt.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau cyfrifoldeb Gweinidogol dros Iechyd Meddwl, gan sicrhau cydweithredu a chydweithio ar draws llywodraeth.
- Pennu targedau i roi terfyn ar yr angen am leoliadau Tu Allan i'r Ardal sy'n golygu y caiff plant eu hanfon yn bell o'u cartref, eu teulu a'u ffrindiau.

### **Gofal Cymdeithasol**

Mae Covid-19 wedi dangos pa mor bwysig yw ein sector gofal cymdeithasol, ond nid yw wedi cael ei ariannu na'i werthfawrogi'n ddigonol ers blynyddoedd. Dylai ein system gofal cymdeithasol sicrhau fod pob unigolyn yn cael cymorth a mynediad cyfartal, beth bynnag fo'u cefndir a beth bynnag fo'r gallu i dalu.

Mae angen dybryd i ddiwygio gofal cymdeithasol oedolion i sicrhau y gwnaiff ddiwallu ein hanghenion at y dyfodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein system gofal cymdeithasol yn fwy cynaliadwy. Byddwn yn ystyried sut i weithredu argymhellion Comisiwn Holtham ac yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol i gyflwyno diwygiadau i fynd ati i greu un Gwasanaeth Gofal Gwladol ar gyfer Cymru.

Byddwn yn gweithredu newidiadau pell-gyrhaeddiol i gomisiynu a fydd yn symleiddio darpariaeth gwasanaethau ac yn rhoi mwy o rym i gomisiynwyr a defnyddwyr gwasanaethau i ganfod eu gwasanaethau eu hunain a'r gofal sy'n gweddu orau i'w

anghenion. Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i ysgogi comisiynu gwasanaethau ar y cyd rhwng Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol.

Er gwaethaf gwaith rhyfeddol y gweithlu gofal, mae gofal cymdeithasol yn dal i fod yn sector ble ceir cyflogau cymharol isel; mae llai na hanner y gweithlu yng Nghymru yn cael y Cyflog Byw Go lawn, ac mae gweithwyr cartrefi gofal wedi wynebu degawd heb welliant cymharol yn eu cyflog. Byddwn yn sicrhau fod pob gweithiwr gofal yn cael eu talu'n deg trwy sicrhau cyflog ac amodau cyfartal ar draws y GIG a gofal cymdeithasol a sicrhau y telir y Cyflog Byw Go lawn i bob gweithiwr gofal.

Mae'n rhaid i ni wneud rhagor i gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniad gofalwyr di-dâl. Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth o'u cyfraniad, ac yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth hawliau cyfreithiol, ac yn cynyddu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr yn lleol. Ar lefel y DU, byddwn yn ymgyrchu am gynnydd ystyrllon yn Lwfans Gofalwyr, ac yng Nghymru, byddwn yn ei wneud yn ddyletswydd i'r GIG adnabod gofalwyr a hybu eu hiechyd a'u lles.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau cyflog ac amodau cyfartal ar draws y sector gofal cymdeithasol, gan sicrhau fod pob gweithiwr gofal yn cael y Cyflog Byw Go lawn.
- Symleiddio gwasanaethau ac arferion gofal cymdeithasol, gan weithio i greu un Gwasanaeth Gofal Gwladol ac integreiddio iechyd a gofal yng Nghymru.
- Gweithredu newidiadau pell-gyrhaeddiol i gomisiynu, gan roi mwy o rym i gomisiynwyr lleol a defnyddwyr gwasanaethau fel y gallant ganfod eu gwasanaethau eu hunain.

### **Cynorthwyo staff gofal iechyd**

Mae ein gweithlu iechyd yn gwneud gwaith hynod o anodd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn drawmatig i lawer. Byddwn yn darparu cymorth ystyrllon ynghylch iechyd meddwl ac iechyd galwedigaethol i holl staff y GIG, gan gynnig y llinell gymorth 24/7 i ragor o staff, nid y rhai â swyddi clinigol yn unig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar bob rhan o'r gweithlu. Ceir tystiolaeth i ddangos fod cwnsela yn y gweithle yn gallu haneru absenoldeb oherwydd salwch trwy wella cydnerthedd a lles cyflogeion. Mae'n rhaid i ni sicrhau y caiff staff fynediad at y cymorth sydd ei hangen arnynt.

Mae'n rhaid cydnabod cyfraniad myfyrwyr gofal iechyd. Byddwn yn ymgorffori dysgu yn seiliedig ar gydnwethnedd yn holl swyddi'r GIG sy'n gweithredu mewn modd sy'n ystyriol o drawma.



Byddwn yn cyflwyno un cofnod iechyd galwedigaethol, gan sicrhau na fydd staff yn wynebu rhwystrau rhag cael cymorth ble a phryd y bydd arnynt eu hangen wrth iddynt newid swyddi, timau neu wasanaethau.

Gan gydnabod gwaith medrus y sawl sy'n gweithio yn y proffesiwn nyrsio, byddwn yn cydweithio ag undebau i ddarparu cynnydd cyflog ystyrlon i sicrhau fod nyrsio yn talu, gan gynorthwyo i gadw sgiliau ac â recriwtio.

### **Lefelau Staff**

Yn 2015, fe wnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru arwain yr ymgyrch i gyflwyno gofyniad i sicrhau lefelau staff nyrsio diogel ar wardiau aciwt oedolion. Pan gaiff ein wardiau eu staffio'n briodol, gall nyrsys ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn well, gan leihau'r angen i aildderbyn cleifion.

Byddwn yn ehangu'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio i gwmpasu cleifion mewnol iechyd meddwl, wardiau plant, a wardiau cymunedol, ac yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu mesurau tebyg mewn rhannau eraill o'n system iechyd.

### **Staff yn dysgu ac yn camu ymlaen**

Byddwn yn cydweithio ag arweinwyr i ddatblygu diwylliant ym mhob rhan o'r GIG sy'n gynhwysol ac yn annog staff i ddysgu a chamu ymlaen. Trwy ddiogelu amser i alluogi staff i barhau i ddysgu, gall y GIG barhau i ddarparu'r gofal gorau posibl. Byddwn hefyd yn cyflwyno Gwarcheidwaid Rhyddid i Godi Llais, gan sicrhau atebolrwydd ar bob lefel.

Byddwn yn cydweithio â'r sector i ddarparu llwybrau newydd at ofal iechyd a nyrsio trwy gyfrwng prentisiaethau ac yn ystyried cyfleoedd creadigol eraill i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol.

### **Iechyd y Cyhoedd**

Bydd hi'n well i bawb os byddwn ni'n cadw pobl yn iach yn hytrach na disgwyl nes y bydd angen triniaeth ar bobl. Mae hyn yn golygu ffocws ar atal ac ymyriadau i gynnal a gwella iechyd y cyhoedd trwy hyrwyddo byw yn iach.

Rydym hefyd yn gwybod fod pwy ydych chi, ble cafoch eich geni, eich incwm, ansawdd eich cartref a ffactorau eraill yn pennu eich iechyd.

Er enghraifft, rydym yn gwybod y gall ansawdd yr aer fod gryn dipyn yn waeth mewn cymunedau mwy difreintiedig. Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf

sylweddol i iechyd y cyhoedd, ar ôl ysmegu. Mae llygredd aer yn costio £1 biliwn y flwyddyn i'n GIG, ac mae'n pwyso'n drwm ar ein hadnoddau, yn rhoi straen ar ein system iechyd, ac yn byrhau dros 2,000 o fywydau yng Nghymru yn flynyddol.

### **Byddwn yn:**

- Cymeradwyo Deddf Aer Glân yn ystod y 100 diwrnod cyntaf i fynd i'r afael ag aer brwnt a'r deilliannau iechyd gwael sy'n cael eu hachosi gan hynny.
- Sicrhau y caiff Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd eu cynnwys mewn penderfyniadau cynllunio a phrosesau ehangach o wneud penderfyniadau
- Sicrhau parhad ymchwil iechyd ac iechyd y cyhoedd, yn cynnwys cydweithio â rhwydweithiau rhwngwladol rhagoriaeth ymchwil.
- Buddsoddi a chynorthwyo â datblygiad mewn technoleg i alluogi pobl i gyrchu technolegau iechyd yn y Gymraeg.
- Sefydlu tasglu i ystyried sut i fynd ati i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd yng Nghymru.

### **Adfywiad ym maes Addysg**

Mae addysg dda yn datgloi cyfleoedd ac yn grymuso pobl i gyflawni eu potensial. Mae ein system addysg wedi wynebu heriau enfawr trwy gydol y pandemig hwn, ond mae hefyd yn cynnig cyfle i ni adfywio a datblygu cymdeithas decach.

Wedi'r flwyddyn ddiwethaf, mae angen gwneud cryn dipyn i sicrhau y gall pobl ifanc ffynnu, y gall pobl gyrchu cyfleoedd hyfforddiant, ac y gall ein heconomi, ein GIG a'n sectorau celfyddydau a diwylliant elwa o ymchwil heb ei hail ein prifysgolion.

Byddwn yn parhau â gwaith Gweinidog Addysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, i sicrhau y caiff ein plant y cychwyn gorau mewn bywyd a chynorthwyo oedolion i fynd ati i ddysgu a datblygu sgiliau trwy gyfrwng hawl i ddysgu gydol oes.

### **Byddwn yn:**

- 1. Darparu prydau ysgol am ddim trwy gydol gwyliau'r ysgol a buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni i fynd i'r afael â llwgu, teimlo'n ynysig, ac allgau yn ystod gwyliau'r ysgol.**
- 2. Sefydlu hawl i ddysgu gydol oes: bydd ehangu Cyfrifon Dysgu Personol yn sicrhau y gall pawb, beth bynnag fo'u cefndir, eu hoedran neu eu lleoliad yng Nghymru, elwa o gyrsiau hygyrch, hyblyg a rhad ac am ddim i gael sgiliau a chymwysterau newydd.**
- 3. Rhoi terfyn ar allgau digidol mewn addysg ar bob lefel, gan gynorthwyo i sicrhau datblygiad sgiliau digidol cryf a mynediad at adnoddau digidol.**

## **Dechrau Teg mewn Bywyd**

Rydym am weld system addysg sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu eu lles, eu hyder a'u cymhelliant, a'u galluogi i elwa'n llawn o'u haddysg, a'u bywydau cyfan.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol wedi arwain y ffordd o ran buddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar, oherwydd dyna ble mae'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Fel rhan o'r Llywodraeth, mae Kirsty Williams wedi parhau i fuddsoddi yn y Grant Datblygu Disgyblion, gan fwy na dyblu'r cyllid ar gyfer ein disgyblion ieuengaf a sefydlu Mynediad at Grant Datblygu Disgyblion i gynnig rhagor o gymorth i'r teuluoedd sydd ei hangen fwyaf. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor.

### **Byddwn yn:**

- Parhau i dargedu buddsoddiadau ariannol i gynorthwyo ein dysgwyr: byddwn yn parhau i ehangu'r ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn ystod gwyliau'r ysgol wedi'r pandemig a buddsoddi mewn rhaglenni sy'n mynd i'r afael llwgu, teimlo'n ynysig, ac allgau yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Parhau â chyllid i sicrhau y caiff ein disgyblion tlotaf yr un cyfleoedd â'u cymheiriaid, o helpu i dalu am wisg ysgol ac offer chwaraeon, i gynorthwyo â thripiâu ac offer TG.
- Monitro a gweithredu i greu amgylcheddau mwy cynhwysol mewn ysgolion i sicrhau y gall pob plentyn gyfranogi yn eu dysgu a chael cymorth priodol.

## **Addysg ar gyfer yr 21ain ganrif**

Yn y Llywodraeth, arweiniodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar greu'r cwricwlwm newydd cyntaf yng Nghymru sy'n rhoi lle blaenllaw i arbenigedd athrawon, ac yn rhoi'r rhyddid iddynt i fod yn greadigol a chynorthwyo dysgwyr i ddod yn ddinasyddion hyderus, medrus a thrugarog.

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynorthwyo plant i fod yn ddinasyddion trugarog sy'n deall ac yn gwrandao ar safbwyntiau gwahanol. Bydd ffocws newydd ar iechyd a lles, datblygu llythrennedd digidol ac addysgu cynhwysol ynghylch hil, cydberthynas a rhywioldeb a fydd yn sicrhau fod ein plant yn barod i fod yn ddinasyddion hyderus mewn byd sy'n newid.

Rydym yn falch fod Kirsty Williams, fel rhan o'r Llywodraeth, wedi cyflwyno'r Rhaglen Cyfnewidfa Dysgu Ryngwladol newydd i sicrhau na fydd dysgwyr yng Nghymru yn colli cyfleoedd gwerthfawr i brofi addysg dramor a dysgu gyda myfyrwyr sy'n ymweld o wledydd eraill. Mae hyn yn rhan hanfodol o system addysg fodern ac eangfrydig sy'n seiliedig ar egwyddorion dwyochredd a gwerth cydweithredu.

Mae'n hanfodol sicrhau fod y cyfleusterau a'r adnoddau gorau ar gael i'n hysgolion. Ers 2016, rydym wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn adeiladau a seilwaith ein hysgolion. Dan arweinyddiaeth Kirsty Williams, bellach, mae gan 100% fynediad at fand eang ffeibr llawn, o'i gymharu â dim ond 37% yn 2016. Mae creu platfform Hwb wedi darparu mynediad am ddim at Microsoft Office a deunyddiau dysgu, ac mae hynny wedi rhoi hwb i sgiliau digidol a chynorthwyo â dysgu y tu allan i'r dosbarth.

Mae hi'n bryd ailystyried rhai agweddau sylfaenol o drefniadaeth ysgolion. Rydym yn bwriadu asesu sut caiff ysgolion eu hariannu ar hyn o bryd a threfniadau dyddiadau tymhorau'r ysgol.

Mae gan y Senedd nesaf gyfle i fynd ati i ddiwygio cymwysterau a pharhau â'n hymdrechion i sicrhau fod ein system addysg yn wirioneddol deg a chynhwysol. Mae'n hanfodol i ni beidio colli'r momentwm a'r cyffro mewn perthynas â'n cwricwlwm newydd a chenhadaeth diwygio addysg ein cenedl, ac mae'n rhaid i ni barhau i weithio i sicrhau system addysg sy'n addas at y dyfodol.

#### **Byddwn yn:**

- Cydweithio ag awdurdodau lleol i adolygu cyllid ar gyfer ysgolion trwy gyfrwng panel adolygu arbenigol.
- Cydweithio â'r gweithlu addysg, undebau ac eraill i ystyried a ellir diwygio dyddiadau tymhorau'r ysgol, gan gynnal yr un faint o ddiwrnodau gwyliau ar gyfer staff a dysgwyr.
- Cydweithio â'r proffesiwn, cyflogwyr a phobl ifanc i ddiwygio ein fframwaith cymwysterau.
- Darparu'r cymorth sy'n ofynnol i sicrhau y caiff y cwricwlwm newydd ei weithredu'n llwyddiannus.
- Sicrhau dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl, fel y nodir yn y cwricwlwm newydd, a chyflwyno arferion sy'n ystyriol o drawma ym mhob ysgol, fel y gall staff weithredu fel ymatebwyr cyntaf.
- Rhoi terfyn ar allgau digidol mewn addysg ar bob lefel, gan gynorthwyo i sicrhau datblygiad sgiliau digidol cryf.

#### **Dull cymunedol o ymdrin â dysgu**

Mae addysg yn rhan allweddol o lawer o gymunedau: mae'n cynnig rhwydweithiau cymdeithasol ehangach i bobl ifanc, ond mae hefyd yn cysylltu rhieni sy'n cymdeithasu ger gatiâu'r ysgol ac yn gwella bywyd y gymuned trwy ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar gyfer grwpiau cymunedol.

Mae ysgolion wedi amlygu eu cyfrifoldeb allweddol o ran cynorthwyo eu dysgwyr, teuluoedd a chymunedau ehangach. Ers 2016, mae Kirsty Williams wedi buddsoddi dros £15 miliwn i gynnal y cysyniad sydd wrth wraidd 'ysgolion bro'. Mae ysgolion bro yn hanfodol i gynorthwyo i gynnal llesiant a gwella safonau pob dysgwr, a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn benodol.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi cyllid cyfalaf i gynorthwyo ysgolion bro a byddwn hefyd yn sicrhau fod gan bob ysgol Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned.

Pan wnaeth cyfyngiadau aros gartref orfodi plant i ddysgu gartref, fe wnaeth pobl ledled y wlad fynd ati i sicrhau fod Cymru yn Dal i Ddysgu. Fe wnaeth rhieni, perthnasau, ffrindiau teulu a gwirfoddolwyr o'r gymuned ehangach helpu plant â'u haddysg, a'u cyflwyno i gyfleoedd newydd a'u cynorthwyo i barhau i gyfranogi. Fodd bynnag, nid oedd y cyfleoedd hyn ar gael yn gyfartal i bob plentyn.

Mae'n rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i sicrhau fod Cymru yn Dal i Ddysgu wedi'r pandemig a rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc. Mae angen i ni weithio'n galetach nag erioed i annog busnesau, y trydydd sector, ac addysg bellach ac addysg uwch i wneud y gorau o'r cyfleoedd i gyfoethogi dysgu mewn ymateb i Covid-19.

### **Adeiladu Llwyddiant**

Staff sy'n cael cymorth priodol, cyllid effeithiol, ac arweinwyr a rheolwyr cryf yw sylfeini system addysg lwyddiannus. Dan arweiniad Kirsty Williams, fe sefydlom Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysg i gynorthwyo arweinwyr ysgolion presennol a darpar arweinwyr ysgolion trwy sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd a'r sgiliau i arwain.

Mae ymroddiad staff addysg i'w gwaith yn ysbrydoledig, ac maent wedi ymateb i heriau'r pandemig. Mae'n rhaid i ni barhau â'r rhaglen diwygio y gwnaethom gychwyn yn 2016 i sicrhau y caiff ein haddysgwyr gyfle i sefydlu system addysg sy'n ffynhonnell balchder cenedlaethol.

### **Byddwn yn:**

- Parhau i gynorthwyo i sicrhau mynediad at hyfforddiant a datblygu, gan gynnwys trwy gyfrwng Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysg.
- Sicrhau fod y gweithlu cyfan yn cael mynediad at gymorth ynghylch iechyd meddwl, ynghyd â lleihau baich gwaith a phwysau ar y system.

## **Dysgu gydol oes**

Bydd Cwricwlwm newydd Cymru yn gwednewid ein system addysg ac yn gosod sylfeini cryf i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau i ymateb i'r heriau a ddaw. Fodd bynnag, mae gormod o bobl yn dal i gael eu hatal rhag cyflawni eu potensial llawn. Mae Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn rhoi cyfleoedd i bobl.

Dylai dysgu fod yn gyfle gydol oes. P'un ai a fydd hynny er mwynhad dysgu ac ymdeimlad o gymuned, i ddatblygu sgiliau neu hyfforddi i gael gyrfa newydd, neu i gael cyfle arall i ennill cymwysterau i fagu hyder a datgloi llwybrau newydd.

Diolch i waith Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y llywodraeth, rydym ar y trywydd iawn i sicrhau hawl go iawn i ddysgu gydol oes. Mae'n rhaid i ni barhau i weithio i sicrhau fod hynny'n realiti i bawb yng Nghymru.

### **Byddwn yn:**

- Sefydlu hawl i ddysgu gydol oes: bydd ehangu Cyfrifon Dysgu Personol yn sicrhau y gall pawb, beth bynnag fo'u cefndir, eu hoedran neu eu lleoliad, elwa o gyrсияu hygyrch, hyblyg a rhad ac am ddim i gael sgiliau a chymwysterau newydd.
- Cydweithio â'r sector Addysg Bellach, cyflogwyr, a rhanddeiliaid allweddol, i ddatblygu gweledigaeth ynghylch addysg ôl-16 sy'n llwyddo er lles pennaf dysgwyr a staff, gan ddarparu cymwysterau hyblyg a dilys.

### **Colegau a Phrifysgolion**

Mae ein prifysgolion a'n colegau yn asedau hynod o werthfawr. Mae eu harbenigedd, eu dealltwriaeth a'u rhwydweithiau yn cynnig cyfle i gynorthwyo â chymaint o agweddau o'n bywydau, a'n hadfywiad economaidd yn sgil Covid-19 yn benodol. Mae cydweithredu rhyngwladol cryf yn cyfoethogi ein system addysg, ymchwil a chymunedau, ac mae'n rhan bwysig o'n system addysg a phob agwedd o'n bywydau.

Gan gydweithio â'n colegau, byddwn yn helpu i ddatblygu cymorth ar gyfer busnesau a diwydiant i'w helpu i adfywio wedi'r pandemig trwy gyfrwng hybiau cyflogwyr a hybiau cymunedau digidol. Mae angen i ni gryfhau cydweithio a chefnogi arloesedd, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig sef asgwrn cefn ein heconomi. Dyna pam rydym yn bwriadu datblygu cysylltiadau agosach rhwng colegau a busnesau trwy gyfrwng Busnes Cymru; rydym hefyd yn bwriadu creu Canolfan Addysg Alwedigaethol a Hyfforddiant.

Credwn y dylai Addysg Uwch fod ar gael i bawb ar sail gallu. Mae diwygiadau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i gyllid addysg uwch yn golygu fod graddau

prifysgolion yng Nghymru yn fwy hygyrch i lawer. Rydym yn hynod o falch fod myfyrwyr cyrsiau rhan amser yn cael cyllid cydwerth, a bod holl fyfyrwyr Cymru bellach yn cael cymorth ariannol i astudio am raddau uwch.

Gallwn wneud hyd yn oed yn fwy i roi mynediad i bobl at ein colegau a'n prifysgolion. Byddwn yn sbarduno cydweithredu ar draws y sectorau addysg bellach ac uwch trwy gyfrwng Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer Cymru, gan ddarparu arolygiaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector ôl-16 gyfan.

Ynghyd ag ymchwil ac arloesedd, bydd profiad dysgwyr yn rhan allweddol o ddiwygiadau gan alluogi mwy o gydlyniant ar draws y sector, gan hyrwyddo llwybrau dysgwyr a chynorthwyo â phontio mewn addysg bellach. Byddwn ni'n parhau i wella'r cyfleoedd am bartneriaeth ystyrlon rhwng dysgwyr a sefydliadau trwy gyfrwng Undebau Myfyrwyr annibynnol wedi'u hariannu ledled Cymru

### **Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Parhau i gynorthwyo myfyrwyr trwy gynorthwyo â chostau byw, gweithio i gau'r bylchau rhwng nawdd cymdeithasol a chyllid myfyrwyr, a blaenoriaethu strategaeth iechyd meddwl myfyrwyr.
- Ymgyrchu am gyfranogiad y DU gyfan yn Horizon 2020 i ddarparu cyfleoedd i staff a myfyrwyr ledled Cymru a thu hwnt.
- Ehangu prentisiaethau gradd, gan gynnwys ar lefel uwchraddedig, gan sicrhau fod meysydd y pynciau sydd ar gael yn fwy amrywiol a chreu rhagor o lwybrau at gyflogaeth.
- Gwella cysylltiadau â busnesau a chynorthwyo busnesau i arloesi, tyfu ac arallgyfeirio.
- Cynorthwyo ag ymchwil trwy weithredu argymhellion adolygiad Reid a chydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau fod Cymru yn gallu cynnig cyfeiriad ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau y caiff cyllid ymchwil ei gynnwys.
- Adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i ailfeddiannu a datblygu cenhadaeth ddinesig addysg uwch gan ystyried y pandemig.

### **Addysg Gymraeg**

Addysg Gymraeg yw'r adnodd gorau sydd gennym ni i gyflawni'r targed o 1 miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050. Mae cynnydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond rhaid i ni wneud rhagor.

Byddai ein Deddf y Gymraeg i Bawb yn cyfuno cynlluniau a dulliau presennol ac yn sefydlu targedau newydd i gynyddu nifer y plant sy'n mynychu addysg Gymraeg ac

hefyd ysgogi buddsoddiant mewn gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar, a chynllunio'r gweithlu yn strategol a'i ariannu.

Byddwn yn adolygu rheoliadau a chanllawiau teithio i hwyluso mynediad at ofal plant, addysg statudol ac addysg ôl-16 i bob dysgwr.

### **Byddwn yn:**

- Buddsoddi a chynllunio i ehangu'r gyfran o'r gweithlu a all addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu £100m dros 10 mlynedd i gynorthwyo i wneud hynny, dan arweiniad awdurdodau lleol a chonsortia addysg; byddai hyn hefyd yn cynnwys pobl sy'n darparu gofal plant.
- Sicrhau fod digon o gyllid cyfalaf ar gael ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel y nodir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg.
- Buddsoddi yn nhwf Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi mewn lleoliadau newydd i gynyddu'r defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg.

### **Adfywiad er lles ein Heconomi**

Mae'n rhaid i'n heconomi gynnal swyddi diogel sy'n talu cyflogau da a gwasanaethau cyhoeddus da. Rydym yn cydnabod nad yw gwaith erbyn hyn yn ffordd sicr o droi cefn ar dlodi, a byddwn yn dyblu ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi a difreintedd yng Nghymru.

Mae incymau isaf y DU yn dal yng Nghymru, ynghyd â rhai o'r achosion gwaethaf o dlodi. Fe wnaeth adroddiad gan sefydliad Joseph Rowntree ganfod fod 700,000 o bobl – bron iawn chwarter y boblogaeth – yn byw mewn tlodi. Mae'r ddau argyfwng Brexit a Covid wedi achosi rhagor o niwed i economi sydd eisoes yn fregus.

Mae cynlluniau ar gyfer twf wedi anwybyddu problemau strwythurol ein gwlad ers gormod o amser. Mae gan Gymru nifer enfawr o microfusnesau, a nifer fechan o ganghennau gweithrediadau gan fuddsoddwyr allanol gyda llawer o swyddi yn ddibynnol arnynt. Mae angen i Gymru hyrwyddo twf cwmnïau sefydlog canolig eu maint i ddarparu asgwrn cefn cryf i'n heconomi.

Ond nid oes yn rhaid i bethau fod fel hyn. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn blaenoriaethu adfywiad.



Wrth wneud hynny, rydym am weld economi yng Nghymru sy'n cydbwysu anghenion sylfaenol pobl ag adnoddau cyfyngedig ein planed.

**Byddwn yn:**

- 1. Creu cronfa gwerth £500m i helpu ein stryd fawr a chanol trefi a dinasoedd, a chynorthwyo busnesau bychan ledled Cymru i ffynnu ac addasu.**
- 2. Cyflwyno pecyn o fesurau i hybu incymau, creu swyddi (yn enwedig swyddi gwyrdd), a mynd i'r afael â thlodi.**
- 3. Gweithio i ddiddymu'r rhwystrau mae busnesau yng Nghymru yn eu hwynebu wrth fasnachu â marchnadoedd Ewrop.**

**Adfywiad er budd Busnesau**

Mae Cymru yn wlad o drefi a phentrefi: rydym am weld canol trefi a phentrefi ffyniannus a dinasoedd croesawgar (mannau y bydd pobl yn dymuno teithio iddynt i wneud mwy na siopa) yn dod yn elfen allweddol o adfywiad economaidd cynaliadwy.

Rhwng Covid-19, Brexit ac anawsterau strwythurol sy'n bodoli ers tro, mae busnesau yn wynebu dyfodol ansicr. Rydym yn cydnabod pa mor hanfodol yw ein busnesau bychan, entrepreneuriaid, pobl hunangyflogedig a microfusnesau ar gyfer Cymru a'n dyfodol. Byddwn yn rhyddhau potensial busnesau trwy greu amgylchedd mwy cefnogol i alluogi busnesau i ffynnu, gan ddarparu sicrwydd tymor hir, buddsoddi mewn seilwaith a thechnoleg, sgiliau a hyfforddiant, a chydweithio ag arweinwyr busnes i sicrhau dyfodol disglair i fusnesau yng Nghymru.

I sicrhau adfywiad wedi'r pandemig, rhaid i ni wrando ar anghenion busnesau a chymunedau i'w codi'n ôl ar eu traed a'u galluogi i ffynnu. Bydd ein buddsoddiad o £500m yn ein stryd fawr a chanol trefi a dinasoedd yn caniatáu i gynghorau lleol, arweinwyr busnes, a sefydliadau busnes gydweithio i nodi blaenoriaethau o ran buddsoddi ledled Cymru.

**Byddwn yn:**

1. Rhewi ardrethi busnes yn ystod oes y Senedd nesaf, ac yn y tymor hir, sefydlu system decach a mwy cefnogol yn lle ardrethi busnes.
2. Cyflwyno Cronfa Cymorth Buddsoddi Ardrethi Busnes, cynorthwyo busnesau i fuddsoddi, a thargedu mesurau cynhyrchiant a datgarboneiddio.
3. Diwygio rheolau i gyflymu ceisiadau newid defnydd ar gyfer mangreodedd masnachol a chyflwyno Hawl y Gymuned i Brynu, i gychwyn aildefnyddio siopau gwag yng nghanol trefi, y stryd fawr a chanol dinasoedd.

4. Buddsoddi mewn cysylltedd band eang i alluogi busnesau i gystadlu'n well ar-lein, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chymorth i alluogi busnesau i bontio i'r 'stryd fawr rithwir' newydd.
5. Sefydlu Premiwm Creu Swyddi, gan wrthbwysu costau cychwynnol recriwtio a hyfforddi ar gyfer busnesau sy'n dymuno tyfu. Bydd y gronfa hon yn cynnwys cymorth penodol i fusnesau sy'n dymuno buddsoddi mewn gweithwyr anabl.
6. Datblygu cynllun tymor hir i gynorthwyo busnesau a galluogi busnesau bychan i dyfu, gan gynnwys sefydlu Cyngor Adfywio'r Economi, a fydd yn cynnwys profiadau go iawn a lleisiau busnesau bychan ledled Cymru.
7. Cymeradwyo Bil Datblygu'r Economi, a chreu ac ail-lunio'r seilwaith a'r cymorth sydd ei hangen ar fusnesau i ffynnu, gan hybu menter a chyflogaeth uchel eu gwerth.
8. Cymeradwyo Deddf Caffael gan y Bobl, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gomisiynu busnesau a chadwyni cyflenwi bychan lleol fel blaenoriaeth, a sicrhau fod rheolau eraill yn fwy hyblyg i gynnig mwy o gwmpas i fuddsoddi mewn contractau tymor hirach.

### **Cynorthwyo i gynnal cyllidebau teuluoedd ac aelwydydd**

Credwn y dylai cymdeithas warantu safon byw sylfaenol, rhwyd diogelwch i'w dinasyddion, a chyfle i bawb anelu'n uchel a chyflawni eu potensial. Bydd sicrhau fod gan bobl fwy o sefydlogrwydd a rhyddid ariannol yn rhan allweddol o'n hadfywiad.

Mae cylch anfad o gyflog isel, gofal plant annigonol a chynnydd mewn costau tai wedi amharu ar Gymru. Yn hanner yr aelwydydd hynny sy'n byw mewn tlodi, mae o leiaf un unigolyn yn gweithio; mae'n rhy syml awgrymu fod cyflogaeth ei hun yn cynnig llwybr i droi cefn ar dlodi.

Mae ein heconomi wedi cael ei heffeithio'n anghymesur gan bandemig Covid-19. Yn ei anterth, cafodd mwy nag un rhan o dair o swyddi Cymru eu rhoi ar ffyrlo. Mae angen gweithredu radicalaidd i helpu'r sawl sydd wedi'u heffeithio'n waethaf gan y pandemig i adfywio, a helpu pawb i ffynnu yn y tymor hir.

Mae dyled ansicredig ac anfforddiadwy yn broblem gynyddol yng Nghymru. Mae gostyngiadau mewn cyflog a budd-daliadau, ynghyd â chostau byw sydd wedi cynyddu'n sylweddol, wedi gorfodi miloedd o bobl i dderbyn dyledion problemus ac eilaidd dim ond i allu fforddio safon byw sylfaenol. Yn achos dyledion heb eu talu, bydd pobl yn wynebu cael eu hatal rhag cael gwasanaethau a chymorth, gan wynebu mwy o ddyled i dalu costau byw.

I raddau helaeth iawn, mae tlodi yn dlodi mewn gwaith, ac mewn oes o ostyngiadau mewn cyflog go iawn, oriau hirach a chostau byw cynyddol, nid yw gwaith bellach yn cynnig gobaith am lwybr i droi cefn ar ddyled fel y gwnâi ar un adeg. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymrwymo i dreialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI). Credwn – ar sail y corff cynyddol o dystiolaeth o dreialon ledled y byd – fod UBI yn lleihau anghyfartaledd ac yn cryfhau llesiant, a hefyd yn cryfhau economïau lleol.

Ac i sicrhau fod gwaith yn talu, rydym yn ymrwymo i sicrhau fod Cymru yn wlad ble ceir Cyflog Byw ac Oriau Byw Go iawn, â'n sector cyhoeddus yn gosod esiampl.

### **Byddwn yn:**

1. Darparu gofal plant rhan amser am ddim gan gychwyn o 9 mis oed hyd at eu trydydd pen-blwydd ar gyfer pob rhiant, beth bynnag fo'u statws gwaith, a gweithio i ddarparu dysgu cynnar a gofal rhan amser am ddim i bob plentyn 3-4 oed, ag oriau ychwanegol ar gael yn unol â graddfa symudol, am 48 wythnos y flwyddyn.
2. Cydweithio â Llywodraeth y DU i gynnal peilot cenedlaethol o Incwm Sylfaenol Cyffredin, ynghyd â diwygiadau i greu System Budd-daliadau gydlynol yng Nghymru, gan gyfuno cronfeydd presennol a budd-daliadau sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn ceisio sicrhau y caiff y system budd-daliadau ei datganoli ymhellach fel y bydd Cymru yn yr un sefyllfa â'r Alban.
3. Sicrhau fod cronfa ariannol benodol a chyfyngedig ar gael fel y gallwn ni ddiddymu dyledion hyd at 200,000 o'r bobl dlotaf dros dymor y Senedd – dyledion sydd eisoes wedi'u gwerthu i asiantaethau casglu dyledion – am ffracsiwn o'r gost.

### **Economi Werdd**

Mae buddsoddiad gwyrdd yn cynnig cyfle aruthrol i greu swyddi newydd tymor hir, ysgogi twf cynaliadwy yr economi, ac ailfywiogi cymunedau. Yr hyn sydd wrth wraidd ein cynigion yw rhaglen fuddsoddi ar raddfa fawr mewn ynni cynaliadwy a mesurau amddiffyn yr amgylchedd, i geisio datgarboneiddio'r economi a chreu cyflogaeth newydd sy'n gynaliadwy ac o ansawdd uchel.

Byddwn yn ymrwymo i sefydlu mesurau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd gan gynnwys tai gwyrdd newydd ac ôl-osod tai sydd eisoes yn bodoli, wrth i ni symud tuag at gymdeithas ddi-garbon. Byddwn yn arwain ac yn annog y gwaith hwn, ond bydd y buddsoddiad yn dod o'r sector preifat yn bennaf. Byddwn yn sicrhau fod y sector cyhoeddus yn defnyddio ei rym gwario a phrynu i hyrwyddo agenda gwyrdd.

### **Byddwn yn:**

- Creu pecyn o fuddsoddiadau gwerth £1 biliwn y flwyddyn i frwydro argyfwng yr hinsawdd, creu swyddi newydd, sefydlogrwydd ar gyfer cadwyni cyflenwi a busnesau, a buddsoddi mewn technoleg newydd.
- Cymeradwyo Bil Datblygu'r Economi, gan ddarparu sefydlogrwydd tymor hir i dyfu cadwyni cyflenwi a chryfhau'r economi
- Buddsoddi mewn prentisiaethau a hyfforddiant o ansawdd uchel, a dwysáu'r cysylltiadau rhwng ein colegau a'n prifysgolion i gynorthwyo ag ymchwil ac arloesedd, a mynd i'r afael â phrinder sgiliau ar gyfer swyddi a thechnolegau 'newydd'.

### **Yr Economi Wledig**

Mae'r pandemig wedi bod yn ergyd drom i'n cymunedau gwledig. I'r sawl sy'n dibynnu'r drwm ar dwristiaeth a'r sector lletygarwch, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi hoelio sylw ar yr heriau sylweddol yn ein heconomi wledig. Mae Cymru wledig yn wynebu cyfnod anodd, yn sgil cysylltedd digidol a chlodiant gwael, costau tai, bygythiad Brexit i'n sectorau amaethyddiaeth a ffermio, a heriau rhedeg busnesau bychan.

Mae ffermio yn benodol yn wynebu newid enfawr. Mae newid yn hanfodol, i amddiffyn dyfodol tymor hir cynhyrchu bwyd yng Nghymru ac i amddiffyn ein hamgylchedd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y dull o wneud hynny yn effeithio ar fywoliaethau miloedd o ffermwyr a dichonoldeb llawer o gymunedau gwledig. Mae angen i ni ddod yn wyrdd, nid colli'r cyfan.

Ers blynnyddoedd lawer, mae incwm net cyfartalog ffermydd yng Nghymru wedi bod yn is na lefel cymorthdaliadau. Fe wnaeth 59% o ffermydd golled sylweddol yn ystod rhai o'r tair blynedd ddiwethaf neu bob un ohonynt. Wedi Brexit, efallai na wnaiff ffermwyr da byw Cymru golli eu prif farchnad yn yr UE ac wynebu distryw ariannol, ond efallai byddant yn canfod fod y rhwystrau rheoleiddio ym maes masnach yn anodd ac yn ddrud. Nid oes ganddynt sicrwydd o barhad cymorth ariannol gan y Llywodraeth.

### **Byddwn yn:**

- Buddsoddi mewn mynd i'r afael â heriau cysylltedd band eang a ffonau symudol yng Nghymru wledig, gan gynnwys creu hybiau cyflogaeth i alluogi gweithio o bell.

- Sicrhau na fydd unrhyw gynlluniau ariannu yn y dyfodol yn darparu ceiniog yn llai ar gyfer ffermio ac amaethyddiaeth.
- Buddsoddi yn narpariaeth tai fforddiadwy a chymdeithasol mewn cymunedau gwledig, gan gynnwys mynd i'r afael ag ail gartrefi a thai gwyliau.

## **Cymru a'r Byd**

Mae gadael yr UE wedi arwain at newid sylfaenol yn null Cymru o ryngweithio â gweddill y byd. Mae'n amlwg y bydd Brexit yn niweidio economi Cymru yn sylweddol, o'n gallu i fasnachu â'r byd i niwed i'n porthladdoedd.

Nid "problemau cychwynnol" sy'n gyfrifol am y newid hwn; mae'n elfen gynhenid o fodel Brexit – gan gynnwys gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau – y mae'r Ceidwadwyr wedi dewis ei ddilyn.

### **Byddwn yn:**

- Gweithio tuag at ailymuno â'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, fel rhan o'r ail-drafod sydd ar y gweill â'r UE yn 2025, neu'n gynharach os ceir cyfle i wneud hynny.
- Sefydlu brand Cymru a'i bwysleisio o'r newydd, gan weithio i hyrwyddo Cymru, ein hallforion, a chyfluoedd i fuddsoddi yng Nghymru ledled y byd.

## **Economi decach**

Mae pwy ydych chi, ble'r ydych chi'n byw, eich cyflogaeth, eich addysg, eich iechyd a'ch lles a'ch ethnigrwydd oll yn pennu eich sefydlogrwydd a'ch rhyddid economaidd. Mae'n rhaid i ni sicrhau y gall pawb gyfranogi yn ein hadfywiad ac elwa ohono.

### **Byddwn yn:**

- Sefydlu egwyddorion gwaith teg ym mhob sefydliad, gan gynnwys annog cyflogwyr i hysbysebu gweithio hyblyg yn achos pob swydd, i wella diwylliant gwaith ac i leihau bylchau cyflog.
- Cynyddu amrywiaeth ar bob lefel ac ym mhob sector trwy annog cyflogwyr i fynd i'r afael â rhagfarn o ran recriwtio, dyrchafu a chyflogau, a chyflwyno targed cenedlaethol newydd ar gyfer swyddi uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol.
- Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn prentisiaethau. Dylai hynny gynnwys gosod a chyflawni targedau ar gyfer pobl anabl a phobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig.
- Cyflwyno gofal plant rhan amser cyffredinol am ddim o 9 mis hyd at oedran ysgol, ehangu darpariaeth gofal cyn ac wedi'r ysgol, a chyflwyno gofal rhan amser cyffredinol yn y gwyliau ar gyfer plant a phobl ifanc 5-13 blwydd oed.

- Sicrhau fod y defnydd o gytundebau cyflogaeth heb ddiogelwch yn diogelu hawliau gweithwyr yn briodol.
- Diddymu costau cyfreithiol herio hiliaeth yn y gweithlu mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth a sicrhau cynrychiolaeth ymhlith pwyllgorau tribiwnlysoedd.
- Sicrhau fod caffael cytundebau'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn cynnwys Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol yn achos tendrau a hyfforddiant, i hysbysu asesiadau.
- Gweddnewid dulliau presennol o ddarparu hyfforddiant ynghylch amrywiaeth ar draws y sector cyhoeddus a chydweithio ag arweinwyr diwydiant i ddarparu arweinyddiaeth a delfrydau ymddwyn.

**Byddwn yn comisiynu ymchwil ac adolygiad i ganfod a yw cyflogwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb, yn enwedig o ran mynediad at swyddi lefel uwch ac ymatebion i hiliaeth yn y gweithle.**

## Adfywiad er lles ein Planed

Mae hi'n argyfwng ar ein planed, neu, fel y dywed Greta Thunberg: "mae ein tŷ ar dân". O'r llyfogydd ar draws ein cymunedau i lygredd, mae problemau yn ymwneud â'r hinsawdd ac ecoleg yn effeithio ar bob un ohonom. Rhaid i ni weithredu nawr.

Mae effeithiau pandemig Covid-19 wedi bod yn anodd i bob un ohonom, ac mae'n teimlo fod yr holl faterion sylweddol eraill wedi stopio'n stond – ond mae'r cloc yn tician o safbwynt dyfodol ein planed.

Byddwn yn sicrhau fod yr amgylchedd yn elfen allweddol o ailadeiladu ein heconomi, ac yn creu economi decach a mwy cydnerth sy'n llwyddo i'r bobl a'r blaned. Byddwn yn sicrhau fod ein dull gweithredu economaidd tymor hir yn un sy'n fwriadol adfywiol, ac yn seiliedig ar egwyddorion economi gylchol ac egwyddor 'peidio gwneud unrhyw niwed'.

Bydd llywodraeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn sicrhau fod yr hinsawdd a'n planed yn elfennau hanfodol o'i agenda; rydym yn dymuno sicrhau amgylchedd ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Byddwn yn:

- 1. Creu pecyn o fuddsoddiadau gwerth £1 biliwn y flwyddyn i frwydro argyfwng yr hinsawdd, creu swyddi newydd a sefydlogrwydd ar gyfer cadwyni cyflenwi a busnesau, a buddsoddi mewn technoleg newydd.**
- 2. Cymeradwyo Deddf Cartrefi Gwyrdd i gynorthwyo i sicrhau gostyngiad o £500 y flwyddyn ym miliau ynni cyfartalog cartrefi ac adeiladu cartrefi sy'n glyfrach ac sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon.**
- 3. Gweithredu i amddiffyn ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, gan gynnwys gweithredu ar lifogydd, ailgoedwigo, cadwraeth bywyd gwylt, cadwraeth forol, a cholli mannau gwyrdd agored cyhoeddus.**

### Ynni

Mae Cymru yn wlad o gyfleoedd; mae ein hamgylchedd naturiol yn cynnig adnoddau cyfoethog i ni ar gyfer economi sy'n wyrddach ac yn fwy cynaliadwy, rhywbeth a fyddai'n caniatáu i'n cymunedau a'r blaned gyfan ffynnu.

Gallwn ddiwallu ein hanghenion ynni ein hunain yn rhwydd a dod yn allforiwr ynni net hefyd. Wrth wneud hynny, gallwn greu a chynorthwyo cwmnïau a chreu llawer rhagor o swyddi medrus. Ategir hyn gan ein cynlluniau ar gyfer cyfleoedd sgiliau ac addysg, i ddarparu'r gweithlu medrus sydd ei hangen.

Byddwn yn helpu cymunedau ledled Cymru i ffynnu fel rhan o'n hadfywiad gwyrdd trwy:

- Droï Caergybi yn ganolfan ranbarthol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a hydrogen, gan greu swyddi tymor hir newydd a chyfleoedd i fusnesau lleol.
- Troï Port Talbot yn brif ganolfan weithgynhyrchu a phorthladd ar gyfer ynni gwynt arnofiol ar y môr yng Nghymru, i arwain y gwaith o weithgynhyrchu a chydod technoleg arnofiol ar y môr.
- Cyflwyno manau gwefru cerbydau trydan a thechnoleg pypiau gwres trydan yng Nghanolbarth Cymru, ynghyd â chapasiti ychwanegol o ran ynni gwynt ar y tir i elwa o'r adnoddau gwynt sylweddol sydd heb eu defnyddio yng Nghanolbarth Cymru, a defnyddio ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau enillion i drethdalwyr Cymru.

Mae ein harfordir yn cynnig cyfle gwyh i Gymru ddod yn arweinydd byd-eang ym maes ynni adnewyddadwy'r llanw. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU i gyflawni prosiectau ynni'r llanw yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ni sicrhau fod y grid trydan yn barod i gyflawni dyheadau ynni Cymru. Ceir heriau sylweddol mewn perthynas â'r grid y mae'n rhaid eu datrys i'n galluogi i sefydlu system ynni sy'n niwtral o ran carbon.

### **Byddwn yn:**

- Ymgyrchu am ddiwygiadau o ran rheoleiddio gan Lywodraeth y DU i annog buddsoddiad yn y grid.
- Ceisio sicrhau datganoli Ystâd y Goron i gynorthwyo i sefydlu rhagor o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr yn gyflym.
- Buddsoddi yn y seilwaith sy'n ofynnol i gynyddu'r capasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Byddai hyn yn cynnwys mynd ati i uwchraddio system y grid, wedi'i hysbysu gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol a fyddai'n gyfrifol am gynnal adolygiad strategol.

### **Ffermio ac amaethyddiaeth**

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wastad wedi bod yn gefnogwyr i ffermio yng Nghymru, gan gydbwysu'r nod o amddiffyn ein tir a'n hamgylchedd naturiol â diogelu ein cyflenwad bwyd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus.

I lawer, mae amaethyddiaeth yn ffordd o fyw, diwylliant a chymuned - llawer iawn mwy na dull o ennill bywoliaeth. Ers cenedlaethau, mae pobl Cymru wledig wedi ffermio a byw ar y tir, bridio cenedlaethau o dda byw arobryn, a bwydo'r genedl o'n caeau. Ond mae incymau ffermydd yn fregus ac mae'r ddwy her o Brexit a Covid-19 yn creu



ansicrwydd dinistriol. Bydd ffermwyr sy'n dymuno moderneiddio ac arallgyfeirio yn aml yn wynebu rhwystrau cynllunio, a gall hynny arwain at oedi annheg o ran eu cynlluniau busnes a lleihau'r gost effeithiolrwydd.

Byddwn yn sicrhau y caiff ffermwyr fargen deg, cynorthwyo newydd-ddyfodiaid ac annog buddsoddiad, twf ac arloesedd. Byddwn yn gweithio i sicrhau y caiff yr holl gymorth ar gyfer ffermydd ei strwythuro i sicrhau fod ffermio yn fwy cystadleuol a chydnerth, gan gydnabod rôl ffermwyr fel ceidwaid y tir a'n hamgylchedd naturiol.

Mae ffermio yn wynebu heriau sylweddol. Mae newid yn hanfodol, i ddiogelu cynhyrchu bwyd yn y tymor hir yng Nghymru ac i ddiogelu ein hamgylchedd. Bydd y dull o sicrhau'r newid hwnnw yn effeithio ar fywoliaethau miloedd o ffermwyr a dichonoldeb llawer o gymunedau gwledig, heddiw ac am genedlaethau i ddod.

Yn anad dim, rhaid i ni ymdrechu i ddiogelu'r cyflenwad bwyd, gan amddiffyn ein hamgylchedd a sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r ffordd wledig o fyw.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau y caiff system sy'n seiliedig ar arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ei sefydlu yn lle'r Cynllun Taliadau Sylfaenol, gan gynnwys: rheoli tir yn gynaliadwy er budd bioamrywiaeth a gwelliannau o ran ansawdd dŵr a lefelau llygredd.
- Sicrhau na fydd y newid o'r Cynllun Taliadau Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gadael unrhyw ffermwr heb gymorth ariannol yn ystod y broses.
- Cynyddu adnoddau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru i'w galluogi i ymchwilio i ac erlyn achosion o lygredd, gan gefnogi ymyriadau wedi'u targedu yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r sawl sy'n llygru sy'n talu.
- Cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau mai'r unig gytundebau masnach y bydd yn eu llofnodi fydd rhai ble bydd nwyddau wedi'u mewnforio yn cyflawni'r safonau uchel o ran yr amgylchedd, ansawdd bwyd a lles anifeiliaid a ddisgwyllir yn achos bwyd a gynhyrchir yn y wlad hon.

### **Natur a Bioamrywiaeth**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni oll wedi dod i werthfawrogi'r manau o'n hamgylch ni, ac mae llawer ohonom wedi canfod nad yw'r amgylchedd naturiol o'n hamgylch cystal â'r disgwyl. Credwn fod mynediad at natur yn fwy na dim ond y dasg allweddol o ddiogelu ein planed a'n bywyd gwyllt, a glanhau'r aer rydym ni'n ei anadlu, mae hefyd yn llesol i'n hiechyd a'n lles.

Mae colledion bioamrywiaeth sylweddol wedi digwydd, ac mae'r rhan fwyaf o famaliaid, adar tir amaethyddol, infertebratau a glaswelltiroedd heb eu gwella sydd â llawer o flodau wedi profi gostyngiadau sylweddol.

Mae arnom angen i'n tir a'n dŵr adfywio, â chymorth mentrau ar draws y llywodraeth. Nid oes unrhyw ail gyfle. Mae'n rhaid i ni sicrhau fod targedau sy'n cael eu gosod yn cael eu cyflawni.

Mae'n hanfodol newid cefnogaeth ariannol i sail 'arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus', ac mae taliadau am enillion o ran bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau eraill, megis atal llifogydd a dal a storio carbon, yn hanfodol.

### **Byddwn yn:**

- Datgan argyfwng Natur a Bioamrywiaeth, gan pa gamau sy'n ofynnol i'w cymryd ar draws y llywodraeth a chan gymdeithas i sicrhau planed ffyniannus i genedlaethau'r dyfodol.
- Cytuno ar Gynlluniau Adfywio Natur a Morol, i lanhau ein hamgylchedd a'n dyfroedd, amddiffyn rhywogaethau, a sicrhau y gall ein hamgylchedd ffynnu.
- Cyflwyno targedau adfer natur cyfreithiol rwym, gan gynnwys cerrig milltir rheolaidd, â monitro ac adroddiadau i ategu hynny.

Mae gan natur rôl hanfodol o ran darparu bwyd, ynni, moddion ac adnoddau genetig. Mae pwysau ar yr amgylchedd yn cyflymu dirywiad bioamrywiaeth, ac mae cyfradd diflaniad rhywogaethau yn cyflymu: mae ein hamgylchedd naturiol yn dirywio.

Byddwn yn cyflwyno mesurau i leihau ac ailddenyddio ein gwastraff, gwneud ein cymunedau a'n dinasoedd yn wyrddach, cynnal arferion ffermio cynaliadwy, gwella iechyd ein hamgylchedd morol, a sbarduno newidiadau yn ein heconomi.

Mae coed a gwrychoedd yn cynnal rhywogaeth hanfodol, cynnal anifeiliaid ffermydd, ac yn helpu i adfer pridd a dal a storio carbon, felly maent yn allweddol i amddiffyn ein ffermydd a'n cymunedau rhag tywydd sy'n gynyddol anffafriol. Rydym yn cefnogi cynlluniau am Goedwig Genedlaethol i Gymru.

### **Byddwn yn:**

- Gwneud pob tref yng Nghymru yn Dref Coed, â phob cyngor yn paratoui Strategaeth Coed a Choetiroedd tymor hir i gyflawni a chynnal o leiaf 20% o orchudd coed mewn ardaloedd trefol a 30% o orchudd coed yn achos pob datblygiad newydd.

- Diweddarau a gwella deddfwriaeth amddiffyn coed fel rhan o'n cynlluniau am Ddeddf Cynllunio newydd i Gymru.
- Cynyddu gorchudd coed ar ffermydd â thaliadau o dan Gynllun Gwrychoedd ac Ymylon, gan gefnogi ffermio sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur.

Er bod llawer ohonom yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir, mae cyflwr ein hardaloedd morol ac iechyd ein bywyd gwyllt morol yn dirywio. Mae Cymru wedi colli cyfleoedd i weithredu ac mae amser yn brin.

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynlluniau Adfer Natur a Morol, gan adrodd ar dargedau uchelgeisiol cytunedig i lanhau ein hamgylchedd a'n dyfroedd, amddiffyn rhywogaethau a sicrhau y gall ecosystemau morol ffynnu. Bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau'r cyllid, y cynllunio, yr hyfforddiant a'r rheoliadau neu'r deddfwriaeth sy'n ofynnol yn y tymhorau byr, canol a hir.

Mae'n rhaid i ni hefyd ymdrin â'r bwch y gwnaiff ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ei adael mewn polisi a llywodraethu amgylcheddol. Roeddem ar un adeg yn rhan o rwydwaith ledled Ewrop yn ysgogi newid allweddol mewn polisi amgylcheddol, ond nawr, mae perygl y byddwn ni ar ei hôl hi. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i nodi'r adnoddau gofynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyflawni ein dyheadau ar gyfer y blaned, a byddwn yn ystyried sefydlu corff annibynnol newydd a wnaiff sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn atebol a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi ac arferion.

## **Lles anifeiliaid**

Mae Cymru yn cynhyrchu bwyd yn unol â rhai o safonau uchaf y byd o ran lles anifeiliaid, ansawdd bwyd ac amddiffyn yr amgylchedd. Dylai'r safonau hyn fod wedi cael eu cynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Senedd y DU, a gall peidio eu cynnwys arwain at fewnforio bwyd rhad sydd ddim yn ddigon da. Gweithiodd y Democratiaid Rhyddfrydol i atal y newidiadau hyn; yn lle erydu rheolau cynhyrchu bwyd, dymunwn weld safonau sy'n uwch fyth.

Mae Cymru hefyd yn wlad sy'n caru anifeiliaid; mae dros hanner o aelwydydd yn cynnwys o leiaf un anifail anwes. Er gwaethaf cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau'r safonau a'r amddiffyniadau uchaf ar gyfer anifeiliaid yng Nghymru.

## **Byddwn yn:**

- Sicrhau fod safonau lles anifeiliaid o leiaf cystal (os nad yn well) â'r rhai yr oeddem yn eu mwynhau fel aelodau o'r Undeb Ewropeaidd

- Cymeradwyo Deddf Bywyd Gwyllt Cymru, gan greu eglurder a chysondeb ynghylch y polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn bywyd gwyllt.
- Cydweithio â'r sector i wella lles anifeiliaid fferm, gan gynnwys allforion byw, a materion ehangach megis caffael bwyd i'r sector cyhoeddus a labelu bwyd.
- Rheoleiddio'r holl werthiannau anifeiliaid i amddiffyn lles unrhyw anifail anwes a gaiff ei fasnachu, ei brynu neu ei werthu yng Nghymru.
- Rhoi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau na fyddant yn defnyddio eu grymoedd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 mewn modd sy'n peryglu lles anifeiliaid.
- Cydweithio â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i weithredu yn erbyn achosion cynyddol o ddwyn cŵn.

## **Adfywiad er lles ein Cymunedau**

Mae cymunedau a lleoedd wedi dod i olygu rhywbeth gwahanol i lawer ohonom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi newid ein dull o deithio, newid ein dull o gyrchu gwasanaethau, ac wedi prynu'n lleol. Fe wnaeth pobl hefyd droi at y naill a'r llall am gymorth, ac fe wnaeth pob un ohonom fynd ati i roi help llaw i gymydog a'n cymunedau.

Fe wnaeth y pandemig amlygu hefyd sut mae llawer o bobl yn profi unigrwydd ac yn teimlo'n ynysig yn feunyddiol, yn sgil cysylltiadau cludiant gwael, gwasanaethau band eang a ffonau symudol gwael, a diffyg gwasanaethau lleol hanfodol.

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw cymunedau i ni i gyd, nid yn unig fel lleoedd i fyw neu weithio, ond fel manau ble gall pobl ffynnu a theimlo eu bod yn perthyn iddynt.

Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion cymdogaeth 20 munud yn yr holl gynllunio a phenderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau hanfodol ar gael o fewn taith 20 munud ar droed, ar feic neu mewn cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys manau siopa, cyfleusterau iechyd, ysgolion, manau gwyrdd a meysydd chwarae, a chyfleoedd cyflogaeth.

Trwy gymeradwyo Deddf Grymuso'r Gymuned, byddwn yn rhoi grym yn ôl yn nwylo cymunedau i ddylunio sut mae cymunedau yn edrych ac yn teimlo, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael, rhoi llais cryfach i breswylwyr, a chefnogi sefydliadau cymunedol.

### **Byddwn yn:**

- 1. Sicrhau fod cludiant cyhoeddus yn llwyddo i bawb, yn cynnwys cludiant am ddim i bobl ifanc hyd at 25 a buddsoddi mewn teithio llesol.**
- 2. Rhoi terfyn ar ddigartrefedd trwy gyfuniad o adeiladu tai, cyllid i ariannu gwasanaethau, a deddfwriaeth newydd i sicrhau na fydd neb yn methu cael y cymorth gofynnol i ddianc rhag digartrefedd.**
- 3. Sicrhau, yn y bum mlynedd nesaf, fod o leiaf 90% o gartrefi a busnesau Cymru yn cael mynediad at fand eang opteg ffibrau llawn.**

### **Datrys ein system tai ddiffygiol**

Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld yr anfanteision sy'n cael eu profi gan y sawl sy'n byw mewn tai annigonol, sy'n wynebu digartrefedd, neu sy'n gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta. Mae pwysau biliau uchel, incwm isel, ffyrlo neu golli gwaith wedi

mynd â phobl a theuluoedd at y dibyn. Mae ein system tai o dan straen difrifol ac wedi bod ers blynyddoedd, ond nid oes yn rhaid i bethau fod fel hyn.

Gallwn ni ac fe wnawn ni roi terfyn ar ddigartrefedd. Gallwn ni ac fe wnawn ni sefyll yn gadarn i sicrhau y gall pobl ifanc gael tai fforddiadwy. Gallwn ni ac fe wnawn ni ymrwymo i adeiladu cartrefi newydd i sicrhau ein bod yn diwallu angen sylfaenol pawb am le i'w alw'n gartref.

### **Byddwn yn:**

- Adeiladu 30,000 o dai cymdeithasol i'w rhentu, gan sicrhau fod pobl ag incwm isel neu brofiad o ddigartrefedd yn gallu cael cartref diogel.
- Buddsoddi symiau uwch nag erioed i ôl-osod mewn tai i sicrhau eu bod yn hygyrch, yn wyrddach ac yn defnyddio ynni yn fwy effeithlon.
- Parhau â'r cynllun Rhentu i Brynu sydd wedi helpu pobl i berchnogi eu cartref eu hunain am y tro cyntaf.
- Ymrwymo i roi terfyn ar ddigartrefedd, trwy fabwysiadu ystod eang o bolisiau, gan gynnwys cynyddu'r Grant Cymorth Tai.

### **Tai fforddiadwy, digonol, cyfforddus**

Mae gan bawb hawl i deimlo'n ddiogel ac yn gynnes a gallu aros yn eu cartref. Mae gan bawb hawl i gael lle sefydlog i fyw. Byddwn yn deddfu i sicrhau fod yr hawl hwn yn dod yn gyfraith fel y bydd yn llywio ein holl benderfyniadau.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau diwygiadau i amddiffyn pobl sy'n byw mewn adeiladau uchel yng Nghymru, yn sgil y sgandal cladin. Byddwn yn gwneud hynny gan amddiffyn unigolion a theuluoedd rhag wynebu costau annheg unioni camgymeriadau sy'n bygwth bywyd nad nhw sy'n gyfrifol amdanynt.

Byddwn yn pennu safonau gofynnol eglur ar gyfer tai rhent preifat, gan gynnwys safonau ynni, ynghyd ag amserlen bendant i gyflawni'r safonau hyn. Mae hyn yn golygu fod angen i eiddo fod yn hygyrch i bobl ag anabledau, mae angen eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae angen iddynt gyflawni'r un safonau â mathau eraill o dai. Bydd y targed cychwynnol ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn yn 10% o ddaliadaethau cyn diwedd tymor y Senedd hon. Byddwn yn deddfu i sicrhau fod landlordiaid preifat yn gorfod gwneud eu cartrefi'n hygyrch erbyn 2030.

Byddwn yn sefydlu un gronfa ar gyfer addasiadau i dai, fel y gall landlordiaid gael cymorth i dalu am newidiadau gofynnol i'w heiddo.

## **Rhoi terfyn ar ddigartrefedd**

Gallwn roi terfyn ar ddigartrefedd. Pan oedd y pandemig yn ei anterth, fe welsom ni, yn sgil adnoddau, ewyllys a ffocws gan wasanaethau cyhoeddus, bobl yn cael eu helpu i droi cefn ar y strydoedd a symud i lety diogel a sefydlog.

Caiff digartrefedd ei achosi gan gost gynyddol byw, diffyg tai fforddiadwy, a diffyg cymorth pan na chaiff anghenion pobl eu diwallu. Pan fydd problemau o'r fath yn cynyddu, gall pobl gael eu gorlethu. Byddwn yn newid dull gwasanaethau a phartneriaid cymunedol o gydweithio fel y gallant helpu pobl i ymdopi ymhell cyn iddynt orfod mynd ar y stryd. Os na allwn ni atal digartrefedd, byddwn yn sicrhau y caiff pobl eu cynorthwyo i gael cartref addas a diogel cyn gynted ag y bo modd.

Byddwn yn cyflwyno cynllun traws-llywodraethol a traws-gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwireddu'r newid lefel system sydd angen er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Byddwn yn buddsoddi'n drwm yn Tai yn Gyntaf, un o'r modelau mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd stryd, ble caiff pobl eu symud yn gyflym i dai a ble rhoddir cymorth dwys i'w helpu i gynnal eu cartref. Byddwn yn ymrwymo i gynyddu'r dull hwn ym mhob awdurdod lleol. Byddwn yn sicrhau cynnydd o £25m yn y Grant Cymorth Tai dros dymor y Senedd.

Byddwn yn cyflwyno'r "cynllun prydlesu sector preifat" presennol yn ehangach. Dan y cynllun hwn, gall landlordiaid preifat ddewis rhentu eu heiddo i gynghorau am bum mlynedd, gan ddarparu tai i bobl sydd ag incwm isel neu brofiad o ddigartrefedd.

Byddwn yn cyflwyno Deddf Tai newydd i symleiddio'r gyfraith i sicrhau na fydd pobl yn methu cael cymorth yn sgil pwy ydynt, o ble maent yn hanu, neu sut daethant yn ddigartref, a sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

## **Tai gwyrddach, tai cynhesach**

Ein huchelgais yw sicrhau fod pobl yn troi cefn ar dlodi tanwydd, creu cartrefi clyfar sy'n cynhyrchu eu hynni eu hunain ac yn ei ddefnyddio'n fwy effeithlon, a mynd ati i gyflawni cartrefi carbon sero. Bydd hyn yn creu swyddi newydd a sefydlogrwydd tymor hir mewn cadwyni cyflenwi. Mae'n fuddsoddiad gwyrdd i sicrhau ffyniant ein pobl yn y dyfodol. Bydd ein dull 'Tai fel Pwerdai' yn gwneud mwy na dim ond arbed ynni.

Mae tai o ansawdd gwael yn costio tua £67m y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru ar hyn o bryd – arian a gaiff ei wario ar drin problemau penodol yn hytrach na'u hatal yn y lle cyntaf.

Dan ein cynlluniau, gallai'r aelwyd gyfartalog arbed dros £600 y flwyddyn pe cai cartrefi eu dylunio i gynhyrchu, storio a rhyddhau ynni'r haul a defnyddio technoleg pypiau gwres.

Byddai ein cynlluniau yn creu:

- Yr hyn sy'n cyfateb i 10,000 o swyddi llawn amser ledled Cymru dros 15 mlynedd
- Cynhyrchu tua £2.2 biliwn ar gyfer economi Cymru
- Lleihau'r defnydd o ynni a biliau ynni i aelwydydd

### **Creu cymunedau**

Mae angen i ni adeiladu rhagor o gartrefi a'u hadeiladu'n gyflym. Byddwn yn buddsoddi mewn adeiladu 30,000 o dai cymdeithasol newydd sy'n defnyddio ynni yn effeithlon fel rhan o raglen adeiladu tai ehangach.

Byddwn yn sefydlu newidiadau i gyfreithiau cynllunio i sicrhau y caiff buddiannau cymunedau eu hamddiffyn a'n bod ni'n parhau i ateb y galw am dai, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd ein newidiadau deddfwriaethol i gynllunio hefyd yn rhoi grymoedd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio a herio penderfyniadau cynllunio sy'n groes i'r egwyddorion hyn. Byddwn yn parhau i gryfhau darpariaeth yn y gyfraith i sicrhau na wnaiff penderfyniadau cynllunio effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.

Byddwn ni hefyd yn newid cyfreithiau cynllunio i sicrhau fod pob penderfyniad yn ystyried egwyddor cymuned 20 munud. Bydd hynny'n golygu y gallwn adeiladu cymunedau sy'n agos at gyfleusterau hamdden, cyflogaeth a chludiant.

### **Tai gwledig**

Mae diffyg tai fforddiadwy yn rhwystr sylweddol i gymunedau gwledig a phobl ifanc sy'n dymuno cael dyfodol yn eu cymunedau eu hunain. Byddwn yn sicrhau y caiff y tai priodol eu hadeiladu yn y manau priodol er mwyn diwallu anghenion lleol.

Mae prisiau yn rhy uchel i bobl mewn cymunedau gwledig, neu mae prinder tai iddynt. Byddwn yn sefydlu deddfwriaeth sy'n mynnu fod awdurdodau lleol yn pennu'r lefel uchaf bosibl o dreth gyngor yn achos unrhyw dai sydd ddim yn brif breswylfa i rywun.



Byddwn yn cau'r bylchau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i bobl ddynodi ail gartrefi yn fusnesau a sicrhau eu bod yn talu'n briodol i gefnogi'r cymunedau yn lleol.

Byddwn yn sicrhau fod mwy o gartrefi cysylltiedig o ansawdd uchel yn cael eu hadeiladu. Byddwn yn cynorthwyo ffermwyr i sefydlu datblygiadau tai gwledig bychan yn lle adeiladau fferm diwydiannol, gan helpu i ailgynnu cymunedau a darparu manau cadarnhaol i bobl ifanc adeiladu eu dyfodol.

## **Cludiant**

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn sicrhau fod cludiant cyhoeddus hygyrch, effeithlon a gwyrdd yn flaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau buddsoddiad i sicrhau fod cymunedau yn gysylltiedig, y gall pobl gyrchu gwasanaethau, ac i fynd i'r afael ag allyriadau cludiant cyhoeddus. Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl adael eu car gartref trwy fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus dibynadwy a llwybrau beicio a cherdded mwy diogel.

Ers gormod o amser, mae seilwaith digidol a ffisegol gwan Cymru wedi bod yn rhwystr i'n heconomi, ond heb ystyried gwead cymdeithasol ein cymunedau, hyd yn oed os byddwn ni'n denu twf, mae perygl na wnaiff hynny gyrraedd at ein holl bobl oherwydd cysylltedd gwael.

Mae'n rhaid i'n dull o gynllunio cludiant newid i adlewyrchu effaith Covid-19 a'n hymrwymiad i sicrhau y caiff cenedlaethau'r dyfodol etifeddu blaned ffyniannus a thrigiadwy. Mae cludiant cyhoeddus yn wynebu tair her. Yn gyntaf, y dirywiad cyn Covid yn nifer y bobl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus; yn ail, effeithiau'r pandemig ar ein hymddygiadau teithio; yn drydedd, cyfraniad cludiant ffordd at lygredd aer.

Mae angen i ni foderneiddio ein seilwaith cludiant, trwy fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus gwyrddach a seilwaith gwefru cerbydau trydan.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau fod cludiant cyhoeddus yn llwyddo i bawb. Bydd ein Bil Bysys yn sicrhau fod gwasanaethau bysys yn diwallu anghenion cymunedau, bod prisiau tocynnau yn fforddiadwy a hyblyg, bod amserlenni yn diwallu anghenion gwahanol, a bod arosfeydd bysys a gorsafoedd trenau yn hygyrch.
- Cyflwyno cludiant cyhoeddus am ddim i bobl ifanc hyd at 25 oed erbyn 2025, fel rhan o'n cynllun i roi'r cyfleoedd gorau i'r genhedlaeth nesaf.
- Sicrhau y cyflwynir y pàs bws consesiynol yn ystod tymor nesaf y Senedd.
- Gwario o leiaf 10% o'r gyllideb cludiant ar deithio llesol, gan sicrhau fod penderfyniadau a wneir yn lleol yn blaenoriaethu cerdded a beicio mwy diogel a

hygyrch, ac yn cynnig cymorth i bobl i allu cyrchu dewisiadau teithio llesol yn hyderus.

- Adeiladu ar lwyddiant Comisiwn Burns, a ddarparodd atebion lleol i'r heriau a wynebir ar Goridor yr M4, i alluogi rhannau eraill o Gymru i nodi atebion cludiant cynaliadwy, priodol a pharhaus ar gyfer cymunedau.

## **Diwylliant a Chwaraeon**

Mae gan Gymru fywyd diwylliannol amlwg a deinameg a ddylai wasanaethu pawb yng Nghymru. Mae ein sectorau diwylliannol a chelfyddydol yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd a'n heconomi; maent yn rhoi cyfle i bawb gysylltu â'n diwylliant ac archwilio ein creadigrwydd.

Mae'r pandemig wedi bod yn anodd i'n holl sefydliadau diwylliannol, ac mae'r diwydiant digwyddiadau wedi cael ergyd neilltuol o drom. Mae lleoliadau cerddoriaeth annibynnol llai yn wynebu cau'n barhaol, mae lleoliadau mwy yn rhagweld y bydd angen dros ddwy flynedd i adfer yn ariannol, ac mae busnesau lleol yn colli ymwelwyr ac incwm.

Byddwn yn cefnogi'r diwydiant digwyddiadau trwy becyn o gyllid a chanllawiau i ddatgloi cyfleoedd er mwyn parhau â rhaglen o ddigwyddiadau. Yn sgil ansicrwydd sylweddol i lawer o fusnesau, rhaid i ni sicrhau fod Cymru yn parhau i fod yn greadigol.

Byddwn yn cefnogi ein sector celfyddydau, treftadaeth a diwylliant i adfer wedi'r pandemig, gan gynnwys darparu cyllid teg i sefydliadau a sefydliadau llawr gwlad yng Nghymru, o'r Llyfrgell Genedlaethol i theatrau bychan.

Rydym yn cefnogi ymgyrch #LetTheMusicPlay UK Music i lloïo Llywodraeth y DU i ddiddymu TAW o bris pob tocyn a werthir. Bydd hyn yn rhoi arian yn ôl yn nwylo pobl ac yn eu hannog i gefnogi lleoliadau a pherfformwyr lleol unwaith eto.

Rydym am i Gymru fod yn genedl egniol ble bydd pawb yn cael eu hysbrydoli i gadw'n heini trwy gyfrwng chwaraeon ac yn gallu gwneud hynny, pa un ai a ydych yn dymuno ennill, cadw'n iach neu gefnogi eich tîm lleol. Mae'r pandemig wedi effeithio'n enfawr ar chwaraeon llawr gwlad a chanolfannau hamdden. Byddwn yn cefnogi clybiau a sefydliadau chwaraeon llawr gwlad trwy gyfrwng Cronfa Cadw Cymru'n Egniol, wedi'i fwriadu i amddiffyn dyfodol clybiau llawr gwlad, a'u helpu i dyfu at y dyfodol.

Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i sicrhau diogelwch ariannol canolfannau hamdden ac yn hyrwyddo arloesedd i addasu i amgylchiadau'r llynedd.

## **Cysylltedd Digidol**

Mae'r pandemig wedi pwysleisio pa mor bwysig yw technoleg i bob un ohonom wrth gyrchu gwasanaethau, dysgu a gweithio, a chadw mewn cysylltiad â'n cymunedau, ein ffrindiau, a'n teuluoedd. Ond mae gormod o gymunedau ac unigolion wedi'u hynysu heb fynediad at wasanaeth band eang neu ffonau symudol dibynadwy. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n cael trafferth cyrchu band eang oherwydd anabledd corfforol neu ddysgu.

Mae seilwaith digidol yn hanfodol i fusnesau ac yn allweddol i seilwaith diwylliannol a chymdeithasol Cymru. Byddwn yn sicrhau fod gan bob busnes fynediad at gysylltiadau band eang a ffonau symudol o'r radd flaenaf, a'r cymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn elwa o'r datblygiadau newydd – o ffermio ac amaethyddiaeth i systemau bwyd newydd, cludiant a masnachu ar-lein.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau y gellir gosod cysylltiadau band eang ffibrau optig yn haws ac yn gyflymach trwy newid rheolau cynllunio a defnyddio'r dulliau diweddaraf i sicrhau y gellir eu gosod yn gyflym gan leihau tarfu.
- Sicrhau, yn y pum mlynedd nesaf, fod o leiaf 90% o gartrefi a busnesau Cymru yn cael fynediad at fand eang ffiber llawn.
- Sicrhau na fydd neb ar ei hôl hi wrth i ragor o wasanaethau a chyfleoedd symud ar-lein, gan gynnwys buddsoddi mewn Cyfrifon Dysgu Personol i alluogi pobl i wella'u sgiliau a datblygu rhai newydd.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth yn y gymuned i sicrhau na wnaiff neb golli cyfle, â gofyniad penodol i flaenoriaethu pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu.
- Gwneud y defnydd gorau o asedau cyhoeddus, megis adeiladau a thai, i sbarduno buddsoddiad mewn seilwaith ffonau symudol, â ffocws ar gymunedau gwledig, a chydweithio â chyflenwyr yng Nghymru i gyflwyno atebion ynghylch cysylltedd.

## Adfywiad o ran y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn elfen gynhenid o wead ein gwlad ond mae'n dal yn teimlo ymhell o afael gormod o bobl. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn ystod blynyddoedd diweddar, mae llawer o waith yn dal i'w wneud. Mae'n rhaid i'n hymdrechion fynd y tu hwnt i faes addysg, a dylai ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar ein cymunedau Gymraeg eu hiaith, yn atal darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Gymraeg, ac sy'n rhwystr i fywyd dinesig a gwleidyddol.

Credwn mewn cenedl gwirioneddol ddwyieithog, ble gall pawb gael addysg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ble gall pobl weithio'n ystyrlon, sefydlu busnesau, cyrchu gwasanaethau a chyfleoedd, a byw eu bywydau gan ddefnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith.

### Byddwn yn:

- 1. Cymeradwyo Deddf Addysg Gymraeg i Bawb, gan normaleiddio'r Gymraeg mewn addysg, gan gynnwys dysgu gydol oes ac mewn addysg ôl-16.**
- 2. Cefnogi a galluogi twf cymunedau gwledig Gymraeg eu hiaith trwy becyn o bolisiau a chyllid.**
- 3. Sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd a gofal ar gael i bob defnyddiwr trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy wella cynllunio'r gweithlu a mynediad at hyfforddiant a chyllid.**

### Iaith Byw

Mae cymunedau Gymraeg eu hiaith ledled Cymru dan bwysau, yn enwedig y rhai yn ein perfeddwlad wledig. Mae pobl ifanc yn gadael i chwilio am gyfleoedd, mae busnesau yn cael trafferth dibynnu ar fasnach dymhorol, a chaiff gwasanaethau eu tanseilio gan dwf cyflym mewn tai gwyliau.

Byddwn yn cyflwyno ystod o fesurau a chyllid i sicrhau y gall cymunedau Gymraeg eu hiaith ffynnu, gan adeiladu ar y newid sylweddol yn ein bywydau o ganlyniad i'r pandemig. Byddwn yn rhoi rhyddid economaidd i bobl i ddatblygu gyrfa a chanfod tai fforddiadwy yn agos at eu cartref, ac fe wnaiff hynny hefyd helpu i sicrhau twf y Gymraeg.

### Byddwn yn:

- Sefydlu Tasglu'r Economi Wledig i archwilio anghenion tymor hir ein heconomi wledig, gan gynnwys y diwydiant twristiaeth.

- Ystyried sut y gallwn sicrhau fod cyfleoedd ar gael yn agosach at gartref, trwy gyfrwng manau gweithio cydweithredol, hawliau cryfach i weithwyr ofyn am gael gweithio'n hyblyg a gweithio gartref, a buddsoddi mewn cysylltedd digidol.
- Cyflwyno fframwaith sy'n blaenoriaethu busnesau a chontractwyr lleol i sbarduno buddsoddiadau a chreu swyddi yn lleol, gan gynnwys cyfleoedd i bobl ifanc trwy Ddeddf Caffael gan y Bobl.
- Sicrhau fod cartrefi cymdeithasol a rhai mwy fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn y manau priodol, sicrhau fod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio o'r newydd, newid diffiniad tai fforddiadwy fel y bydd yn diwallu anghenion yn well, ymdrin ag anghysondebau a gwendidau i fynd i'r afael â heriau cartrefi gwyliau ac ail gartrefi, a chryfhau ystyriaethau o ran iaith fel rhan o ddeddfwriaeth cynllunio.
- Amddiffyn a chynorthwyo ffermydd teuluol a'r sector ffermio ac amaethyddol i sicrhau y gall ffynnu â model cyllid cynaliadwy.

### **Darlledu a'r cyfryngau**

Yn ystod y pandemig, fe welsom fod darlledu a gohebu perthnasol a chywir ar yr adeg briodol yn hanfodol wrth i ni ddisgwyl am ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyfyngiadau Covid-19.

Mae Cymru yn haeddu gwell. Does gennym ni'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes sydd ei hangen arnom, sy'n effeithio ar fywyd gwleidyddol a dinesig ein gwlad. Mae angen mwy o rym arnom dros ddarlledu, i sicrhau y gallwn ddiwallu ein hanghenion ein hunain.

### **Byddwn yn:**

- Sefydlu cronfa ganolog barhaus i gynorthwyo newyddiaduraeth â darpariaeth ac atebolrwydd hyd braich i sicrhau amhleidioldeb
- Parhau i ymgyrchu i ddatganoli grymoedd dros S4C a materion darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau fod gan Gymru fwy o gyfrifoldeb yn y gwaith o bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf ar gyfer Cymru.

### **Gwasanaethau cyhoeddus**

Gall y diffyg darpariaeth i siaradwyr y Gymraeg ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac yn y system gofal iechyd yn benodol, lesteirio adferiad a mynediad at wasanaethau.

Pan fydd unigolyn yn dod i gysylltiad â gofal iechyd sylfaenol, bydd hynny'n aml yn digwydd yn ystod cyfnod anodd pan fyddant yn teimlo'n fregus. Gall unigolion sy'n byw

gydag amrywiaeth eang o anawsterau iechyd megis dementia neu argyfwng iechyd meddwl brofi anawsterau sylweddol wrth fynegi eu hanghenion trwy gyfrwng ail iaith.

Er bod strategaethau yn eu lle sy'n gweithio i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, mae diffyg cynllunio a buddsoddi yn y gweithlu i gyflawni'r strategaethau hynny. Byddwn yn methu cyflawni ein targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg os na newidiwn ni gyfeiriad nawr.

**Byddwn yn:**

- Cydweithio ag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AAGIC) i gynllunio a nodi'r buddsoddiad sy'n ofynnol, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, i sicrhau y gall pobl gyrchu gwasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg ble bynnag maent yn byw.
- Cydweithio â'r sector ac ymarferwyr i nodi sut gallwn gyflwyno gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau gofal clinigol y GIG yn Gymraeg pan ofynnir am hynny.
- Cynorthwyo i ddatblygu a buddsoddi mewn technoleg iaith Gymraeg i gyfrannu ymhellach at sicrhau cydraddoldeb o ran iaith ar draws pob diwydiant a gwasanaeth.

## **Adfywiad sy'n Ystyriol o Blant**

Mae Covid-19 wedi dangos y gallwn fod yn gryf a chydnerth pan fydd pob dinesydd yn ddiogel, yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi. Mae angen i unrhyw adfywiad fod yn deg i bob dinesydd. Er bod gennym ystod eang o ymrwymadau a fydd yn fuddiol i blant, mae plant sy'n derbyn gofal neu â phrofiad o'r system gofal wedi bod ar ei hôl hi yn rhy aml o lawer.

Byddwn yn newid hynny. Byddwn yn gwrando arnoch chi ac yn sicrhau y cewch chi lais cryfach a hawliau cryfach i gael y cymorth sydd ei hangen arnoch i ddatblygu a ffynnu. Mae ein neges i chi yn glir: rydym ar eich hochr chi.

### **Byddwn yn:**

- 1. Cyflwyno gofal plant rhan amser cyffredinol am ddim o 9 mis oed hyd at oed ysgol, ehangu darpariaeth gofal cyn ac wedi'r ysgol, a chyflwyno gofal rhan amser cyffredinol yn y gwyliau ar gyfer plant a phobl ifanc 5-13 blwydd oed.**
- 2. Cyflwyno moratoriwm di-oed ar gytundebau preifat er elw mewn rhannau penodol o'r system gofal, gan gynnwys gofal preswyl plant.**
- 3. Cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n diffinio swyddogaeth statudol ar gyfer gwaith ieuenctid dan arolygiaeth Gweinidog dros Blant a Phobl Ifanc**

### **Gwasanaethau Plant**

Dylai ein systemau gofal – ar gyfer oedolion a phlant – gael eu hategu gan hawliau cryf y gellir eu gorfodi i sicrhau y caiff pobl eu trin yn urddasol ac y gallant ffynnu. Rydym yn gwybod fod deilliannau i blant sy'n derbyn gofal yn waeth na rhai eu cymheiriaid, ac mae'n rhaid i hyn newid os ydym am greu Cymru sy'n cynnig cyfleoedd.

Mae'n rhaid i ni wrando ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd â phrofiad o'r system gofal. Maent yn lleisiau sydd wedi cael eu hanwybyddu. Credwn y dylent fod yn rhan allweddol o'r broses o wneud penderfyniadau.

Caiff pobl ifanc eu siomi pan fydd costau eu gofal yn ffactor yn eu bywyd. Trwy ddiddymu cymhellion gwneud elw, gallwn sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei wario ar ddatblygu lleoliadau sefydlog, cefnogol a chynaliadwy. Byddwn yn diddymu'r elfen o wneud elw yn lleoliad plentyn sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Caiff hyn ei gyflwyno'n raddol i atal tarfu ar leoliadau.

### **Byddwn yn:**

1. Cyflwyno moratoriwm di-oed ar gytundebau preifat er elw mewn rhannau penodol o'r system gofal, gan gynnwys gofal preswyl plant ac unedau diogel i'r sawl sydd ag anableddau dysgu.
2. Sefydlu ymrwymiad cenedlaethol, traws-lywodraeth, i gryfhau lleisiau a deilliannau pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal wrth lunio eu gofal a'u dyfodol.

### **Hawliau plant a gofal a brofir gan bobl ifanc**

Dylai pob plentyn gael cyfle i ffynnu a bod yn hapus ac iach. Rydym yn dymuno gweld system gofal sy'n darparu'r sefydlogrwydd, y cymorth a'r adnoddau y mae pob plentyn a pherson ifanc eu hangen i ffynnu. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fydd y system gofal yn cynnig y cychwyn gorau mewn bywyd bob tro yn achos gormod o blant a phobl ifanc.

Bydd effaith Covid-19 yn ergyd drom i'n plant, ac yn enwedig y rhai sydd heb y gofal, y sefydlogrwydd a'r cariad priodol sydd ei hangen ar blant i ffynnu.

Byddwn yn ailddyblu ymdrechion i ddod â gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr ynghyd i ddarparu cymorth i fyw bywyd annibynnol sefydlog, cael gwaith cyflogedig a chyfleoedd i ehangu gorwelion.

### **Byddwn yn:**

- Sicrhau y caiff dull hawliau plant ei fabwysiadu ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus.
- Cyflwyno gofyniad i wasanaethau iechyd ac addysg gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc fel y caiff pob plentyn a pherson ifanc gymorth i gyrchu eu hawliau.
- Gwella'r gwaith o gasglu a monitro data cyflawniad, anghenion ychwanegol a gwaharddiadau ar gyfer plant mabwysiedig.
- Sicrhau fod gofawyr yn cael mynediad rhwydd at wybodaeth a chynngor ynghylch rhianta sy'n ystyriol o drawma.

### **Gwaith ieuentid**

Mae gwasanaethau ieuentid yn darparu cyfle grymus i ymgysylltu â phobl ifanc, gwrando arnynt, a'u cynorthwyo. Mae gweithwyr ieuentid yn helpu pobl ifanc â'u datblygiad personol, addysgol a chymdeithasol, ac yn eu galluogi i ganfod eu llais a'u lle yn y gymdeithas i gyflawni eu potensial llawn. Mae'n rhaid i ni wneud rhagor i sicrhau y caiff gwasanaethau ieuentid a gweithwyr ieuentid eu cefnogi a bod ganddynt yr adnoddau i gyflawni'r gorau i'n pobl ifanc.



**Byddwn yn:**

- Diffinio swyddogaeth statudol ar gyfer gwaith ieuenctid yn y gyfraith, dan arolygiaeth Gweinidog dros Blant a Phobl Ifanc
- Grymuso gwirfoddolwyr a staff gwaith ieuenctid trwy fynediad at gyrsiau gwaith ieuenctid a chymuned a chymhellion i sefydliadau gwirfoddol i gynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i gyrchu datblygiad proffesiynol a phersonol
- Cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru, fel rhan o becyn ehangach o rymoedd.

**Gofal plant**

Mae gofal plant o ansawdd uchel yn allweddol i ddatblygiad plant ac i roi'r cychwyn gorau iddynt mewn bywyd. Trwy ddiwygio'r cynnig gofal plant, darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu cynnar, cyfle i gymdeithasu a datblygu lleferydd ac iaith, a gwella dysgu trwy chwarae, gallwn gau'r bylchau a sicrhau na fydd unrhyw blentyn ar ei hôl hi.

**Byddwn yn:**

- Gweithio tuag at ddarparu dysgu cynnar a gofal rhan amser am ddim i bob plentyn 3-4 blwydd oed, ac oriau ychwanegol a fydd ar gael ar raddfa symudol, am 48 wythnos y flwyddyn
- Cyflwyno gofal cyn ac wedi'r ysgol a gofal rhan amser yn y gwyliau i blant a phobl ifanc 5-13 blwydd oed, ag oriau ychwanegol a fydd ar gael ar raddfa symudol, am 48 wythnos y flwyddyn

**Yn y tymor byr, byddwn yn:**

- Darparu gofal rhan amser am ddim o'r adeg pan fydd plentyn yn 9 mis oed hyd at eu trydydd pen-blwydd ar gyfer bob rhiant, beth bynnag fo'u statws gwaith
- Cynyddu darpariaeth yn ystod y gwyliau ac wedi'r ysgol
- Sicrhau fod yr holl ddarpariaeth yn cael ei chofrestru i helpu i hawlio'r gost

## **Adfywiad sy'n Seiliedig ar Hawliau**

Yn 2021, rydym mewn sefyllfa well nag unrhyw genhedlaeth flaenorol i ddeall beth yn union yw rhyddid unigol. Fodd bynnag, er bod gan lawer ohonom fwy o ryddid nag erioed o'r blaen, mae'r rhyddid hwnnw o dan fygythiad.

O ran ein gwleidyddiaeth, ein heconomi, a throseddau a chyfiawnder, mae gormod o bobl yn cael eu hallgáu, yn gweld eu rhyddid yn crebachu'n raddol, ac nid ydynt yn elwa o'r cynnydd rydym yn ei wneud.

Mae Covid-19 wedi datgelu anghyfartaleddau sylfaenol ac mae'n eu gwaethygu. Mae ble ydych chi'n byw, ble cawsoch eich geni, eich hunaniaeth a'ch addysg oll yn llunio eich mynediad at eich cyfleoedd, p'un ai a ydych yn byw mewn tlogi, p'un ai a ydych yn byw mewn ofn, eich deilliannau iechyd, cyflogaeth a mwy.

Gallwn gofio golygfeydd a straeon newyddion y llynedd pan wnaeth menywod, pobl groenliw, pobl sy'n byw mewn tlogi, pobl anabl a phobl LHDT+ wynebu anghyfartaledd amlwg. Digon yw digon. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweithredu i greu Cymru fwy cyfartal ble gall pawb ffynnu.

Mae llawer o'r penderfyniadau sy'n ein gwneud ni'n llai rhydd ac yn golygu ein bod ni'n methu ffynnu'n llawn yn deillio o San Steffan, ond ni wnaiff hynny ein hatal ni rhag brwydro i greu cymdeithas sy'n fwy hael ac yn fwy rhyddfrydol ble gall pob un ohonom ffynnu.

Byddwn yn defnyddio pob grym sydd gennym i gyflawni newidiadau – a byddwn yn manteisio ar bob cyfle i lobio am fwy o rymoedd fel y caiff penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru eu gwneud yma yng Nghymru.

Gall ein delfrydau rhyddfrydol greu gwlad sy'n fwy diogel, yn decach ac yn hapusach.

### **Byddwn yn:**

- 1. Ymdrechu i sicrhau datganoli cyfiawnder troseddol i Gymru i wella ein gallu i atal troseddau, cynorthwyo dioddefwyr troseddau, a helpu pobl i symud ymlaen â'u bywydau.**
- 2. Sefydlu Comisiwn i ymchwilio i beth all gwasanaethau yng Nghymru ei wneud i atal trais yn erbyn menywod a merched ac i gynorthwyo dioddefwyr camdriniaeth.**
- 3. Gweithredu yn erbyn troseddau casineb ac anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru trwy gyfrwng mesurau yn ymdrin ag anghyfartaledd yn y gweithle, mynediad at wasanaethau, a monitro data.**

## **Troseddu a phlisma**

Dylai pobl allu byw eu bywydau heb ofni gwahaniaethu. Fodd bynnag, mae troseddau casineb yn cynyddu, ac mae gormod o lawer o bobl ddim yn teimlo'n ddiogel erbyn hyn. Credwn fod angen i'r llywodraeth weithredu'n benodol i gosbi gwahaniaethu a sicrhau na wnaiff ddigwydd yn y lle cyntaf.

Er bod llawer o'r grymoedd i sicrhau newid yn nwylo San Steffan, gall Llywodraeth Cymru a phartneriaid wneud llawer i fynd i'r afael â throseddu, anghyfiawnder a gwahaniaethu, a gwella profiadau'r sawl sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Deng mlynedd yn ôl fe wnaeth Comisiwn Silk, a sicrhawyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, argymhell datganoli plisma i Gymru. Mae'n hen bryd gweithredu ar hyn. Credwn y dylid datganoli grymoedd dros gyfiawnder ieuencid, gwasanaethau prawf, carchardai a phlisma i alluogi Cymru i greu dull gweithredu effeithiol a rhyddfrydol yn y gymuned mewn perthynas â phlisma a mynd i'r afael â throseddu. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatganoli'r grymoedd hyn.

Fe wnawn ni bopeth yn ein gallu o fewn ein grymoedd presennol. Rydym am fod yn bartneriaid cyfartal mewn gwlad ffederal i'n galluogi i greu polisiau atal troseddu a phlisma gwahanol sy'n cyflawni gwerthoedd rhyddfrydol sydd wedi'u coleddu ers tro byd.

### **Byddwn yn:**

- Sefydlu Comisiwn ynghylch trais yn erbyn menywod a merched i ddeall beth all gwasanaethau ei wneud yng Nghymru.
- Gwrthwynebu ymdrechion didrugaredd a pheryglus i orfodi cymunedau ar y cyrion i wynebu hyd yn oed rhagor o blisma anghyfartal a lleihau ein hawl i brotestio.
- Gweithio â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu etholedig i ddatblygu polisi lleihau niwed, gan gynnwys creu ystafelloedd cyfreithlon ble gellir cymryd cyffuriau, i symud cyffuriau peryglus oddi ar ein strydoedd.

## **Cydraddoldeb hiliol**

Yng Nghymru, mae pobl o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn cael eu gorgynrychioli ym mhob cam o'r system cyfiawnder troseddol: fel dioddefwyr troseddau, wrth stopio a chwilio, ymhlith poblogaeth y carchardai, ac ymhlith pobl sydd ar brawf.

Rydym yn cydnabod y ceir anawsterau strwythurol sylweddol y mae angen i ni ymdrin â hwy. Mae dros hanner y bobl o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi'u geni ym Mhrydain yn credu fod y system cyfiawnder troseddol yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol, ond dim ond tua un rhan o dair o bobl wyn sydd wedi'u geni ym Mhrydain sy'n credu hynny.

Credwn y dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM gyhoeddi strategaeth ynghylch pobl o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, a rhoi adroddiad blynyddol i'r Senedd ynghylch ymdrin ag anghyfartaledd hiliol yng Nghymru. Rhaid gweithredu Adolygiad Lammy yn llawn hefyd.

### **Byddwn yn:**

- Cydweithio â Llywodraeth y DU i ehangu'r egwyddor 'egluro neu ddiwygio' i gymwyseddau datganoledig sy'n cyfrannu at wahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol; os na fydd asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gallu darparu eglurhad ar sail tystiolaeth am wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig, bydd hyn yn golygu y byddant yn cael eu cymell i gyflwyno diwygiadau.
- Gwella'r gwaith o gofnodi data ynghylch ethnigrwydd a monitro ffactorau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, megis gwaharddiadau o ysgolion, i nodi anghyfartaledd strwythurol a rhagfarn sy'n sbarduno deilliannau negyddol i bobl groenliw.

### **Trais yn erbyn menywod a merched**

Ym mis Mawrth eleni, daeth realiti'r trais a wynebir gan fenywod a merched i'r amlwg.

Mae digwyddiadau dechrau mis Mawrth wedi amlygu'r ofn y bydd cymaint o fenywod yn ei deimlo wrth ddefnyddio manau cyhoeddus. Clywsom gymaint o straeon am aflonyddu ar y stryd. Gwelsom hefyd gynnydd sylweddol mewn camdriniaeth ddomestig yn ystod y pandemig. Mae angen i ni ystyried beth all y llywodraeth ar bob lefel ei wneud i atal trais yn erbyn menywod.

Mae gwasanaethau i fenywod a merched sy'n wynebu trais a chamdriniaeth ddomestig dan bwysau cynyddol oherwydd toriadau ariannol, ac mae hynny wedi effeithio'n anghymesur ar wasanaethau arbenigol i fenywod a merched o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

### **Byddwn yn:**

- Sefydlu comisiwn i bennu beth all gwasanaethau addysg, cyfiawnder a chynghorau ei wneud i greu cymdeithas fwy diogel a thecach i fenywod a merched.
- Diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol ar gyfer dioddefwyr trais i ateb y galw a ragwelir yn ddigonol yn ystod ac wedi'r pandemig.
- Cyflawni'r argymhellion llawn yn yr adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol i sicrhau newid sylfaenol o ran polisi, cyllidebu, caffael a chomisiynu.
- Sicrhau yr adroddir yn rheolaidd am aflonyddu rhywiol a throsteddau casineb a gaiff eu cymell gan gasineb at fenywod a sicrhau fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu yn gweithredu mewn ymateb iddynt.
- Sicrhau fod dyletswydd gwasanaethau cyhoeddus i Ofyn a Gweithredu mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched yn cael ei ddefnyddio a'i sefydlu ar draws ein cymunedau, gan gynnwys y sector preifat, e.e. gwestai a chlybiau nos.

### **Trosteddau casineb**

Mae nifer y trosteddau casineb a gofnodir gan yr heddlu yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y saith mlynedd ddiwethaf, gan gyrraedd 2,634 o drosteddau yn 2019/20 – dwbl cyfanswm 2012/13. Roedd mwyafrif y trosteddau yn 2019/20 yn drosteddau casineb hiliol, sy'n golygu fod grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â chymunedau ffydd lleiafrifol, yn cael eu heffeithio'n anghyfartal. Mae trosteddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywedd a hunaniaeth traws wedi cynydd, gyda'r nifer o drosteddau wedi'u hadrodd gan bobl traws yn dwbli ers 2017.

### **Byddwn yn:**

- Cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr trosteddau casineb, gan gynnwys y rhai sy'n caniatáu adrodd gan drydydd parti, â'r nod o ehangu darpariaeth bresennol a sicrhau fod dewisiadau ehangach ar gael i'r sawl sy'n amharod i droi at yr heddlu.
- Mabwysiadu strategaeth aml-asiantaeth a chyfannol i fynd i'r afael â throsteddau casineb, gan gynnwys ymyriadau addysgol.
- Gwella data ynghylch cyffredinrwydd trosteddau casineb i lywio gwasanaethau, cyllid a strategaethau i atal trosteddau.

### **Gwaith rhyw**

Mae'r dull presennol i ymdrin â gwaith rhyw yn y DU yn peryglu pobl fregus. Er nad yw gwerthu na phrynu rhyw yn anghyfreithlon ar hyn o bryd yng Nghymru, mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hynny yn drosteddau, sy'n gorfodi'r sawl sy'n gwerthu rhyw i fabwysiadu arferion â risg uwch i barhau i weithio. Credwn mewn dull sy'n

blaenoriaethu amddiffyn gweithwyr rhyw, gan wneud y diwydiant yn fwy diogel a lleihau niwed.

### **Byddwn yn:**

- Mabwysiadu model Glannau Merswy ar draws heddluoedd Cymru gan ystyried troseddau yn erbyn gweithwyr rhyw yn droseddau casineb, a chydweithio'n agos â phrosiectau gwaith rhyw sy'n cynnig gwasanaethau megis lleihau niwed, cwnsela, ac allgymorth.
- Defnyddio Cyngorwyr Trais Rhywiol Annibynnol i weithredu fel cyfryngwyr pan fydd gweithwyr rhyw wedi dioddef troseddau.
- Darparu cyllid i wasanaethau i fabwysiadau dulliau amlddisgyblaethol a rheoli achosion i leihau niwed.

### **Lleihau aildroseddu**

Mae ein system cyfiawnder troseddol yn methu i bob un ohonom.

Dylai ein system cyfiawnder troseddol gefnogi ailsefydlu; pan fydd pobl yn gadael system y carchardai, dylent fod yn barod i ailintegreiddio mewn cymdeithas â gwaith a lle i fyw. Mae gormod o bobl sy'n gadael carchar neu'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu gwthio i'r cyrion, ac nid ydynt yn cael y tai, y gwaith a'r cyfleoedd sy'n ofynnol i ailadeiladu eu bywydau.

Mae gennym weledigaeth o system cyfiawnder sy'n canolbwyntio ar ailintegreiddio pobl yn y gymdeithas ac atal aildroseddu. Dyma'r ffordd orau hefyd o amddiffyn pobl rhag dod yn ddioddefwyr troseddau.

### **Byddwn yn:**

- Ysgogi mwy o gydlynw rhwng y gwasanaeth carchardai, darparwyr gwasanaethau prawf, y sectorau gwirfoddol a phreifat, ac awdurdodau lleol.
- Sicrhau fod pawb sy'n gadael carchar yn cael eu rhyddhau ar adeg briodol o safbwynt materion llety, yn cael eu cynorthwyo â chyfrif banc a chyflogaeth neu hyfforddiant, ac yn cael eu cofrestru â meddyg teulu lleol.
- Gwella cymorth a thriniaethau iechyd meddwl yn y system cyfiawnder troseddol a sicrhau parhad triniaethau gofal iechyd meddwl a llwyrddibyniaeth.

### **Dull Iechyd y Cyhoedd**

Mae angen i ni fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â throseddau: nodi ffactorau risgiau a'u trin, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y symptomau. Mae hyn yn

golygu yr heddlu, athrawon, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymdeithasol oll yn cydweithio'n agos i atal troseddau a thrais.

Mae partneriaethau gwaith mwy cadarn rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau'r heddlu yn debygol o wella gofal pobl sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu yn ystod argyfyngau iechyd meddwl.

#### **Byddwn yn:**

- Dadflaenoriaethu ceisio sicrhau collfarnau am droseddau meddu ar gyffuriau a chyfeirio adnoddau i dargedu masnachu cyffuriau.
- Sefydlu dulliau sy'n ystyriol o drawma o ymdrin â phlisma, cyfiawnder a throeddu ar gyfer dioddefwyr a chyflawnwyr troseddau.

#### **Amddiffyn Preifatrwydd ac Atal Gwladwriaeth sy'n Arwyllo**

Mae ein hawliau a'n rhyddidau dan fygythiad. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu mewn cymdeithas ble caiff hawliau a rhyddidau eu hamddiffyn. Credwn fod unrhyw ymgais i gofnodi neu rannu data at ddibenion gorfodi rheolau mewnfudo yn atal pobl rhag ceisio cymorth, â chanlyniadau trychinebus.

Mae deddfwriaeth cyfiawnder troseddol newydd y Ceidwadwyr yn beryglus, yn ddirugaredd, ac yn ddiffygiol. Mae'n bosibl y gallai rwystro protestio, a gorfodi cymunedau ar y cyrion i gael eu proffilio a phrofi hyd yn oed rhagor o blisma anghyfartal.

Byddai'n rhoi grymoedd ysgubol i'r Swyddfa Gartref i gyfyngu ar yr hawl i brotestio, rhoi grymoedd newydd i'r heddlu i darfu ar brotestiadau, gorymdeithiau a chynulliadau, ei gwneud hi'n haws i erlid trefnwyr a chyfranogwyr am droseddau, a chynyddu dedfrydau o garchar iddynt. Yn gryno, nid yw'n gwneud dim i atal troseddu ac mae'n peryglu ein rhyddidau unigol.

#### **Byddwn yn:**

- Cydweithio â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i atal y defnydd o systemau arwyllo sy'n adnabod wynebau gan heddluoedd yng Nghymru nes ceir mwy o atebolrwydd a thryloywder ynghylch eu defnydd.
- Gwrthwynebu ymdrechion didrugaredd a pheryglus i orfodi cymunedau ar y cyrion i wynebu hyd yn oed rhagor o blisma anghyfartal a lleihau ein hawl i brotestio.
- Gwrthwynebu ymdrechion i leihau ein hawl i brotestio.

- Cydweithio â gwasanaethau i sicrhau fod pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio gwasanaethau heb ofni gwrthgyhuddiadau, yn enwedig mewn perthynas ag allgludo.

## **Cryfhau hawliau**

Fel sail i'n cynigion, i lywio penderfyniadau, a sicrhau y gall pawb ffynnu ac na chaiff hawliau neb eu lleihau, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ymgorffori Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig, megis Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl, Confensiwn y CU ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn, yng nghyfraith Cymru.
- Cefnogi ymdrechion ar gyfer cydabyddiaeth lawn a diogelu rhag gwahaniaethu ar gyfer pob hunaniaeth rhyw o dan y gyfraith ac, ble mae'n bosib, gweithio tuag at ddiwygio tystysgrifau cydnabod rhywedd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Cymreig yn hygyrch.
- Sicrhau na fydd unrhyw lithro o ran amddiffyniadau cydraddoldeb yn dilyn ein hymadawiad o'r UE a chymryd cyfleoedd i wella amddiffyniadau yn neddfwriaeth y wlad hon.
- Sefydlu dull cenedlaethol o fonitro ac adrodd am gynnydd ynghylch hawliau dynol.
- Ymrwymo i sicrhau fod deddfwriaeth Cymru yn parhau i gyd-fynd â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

## **Adfywiad Democrataidd**

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn wastad wedi bod ar flaen y gad o ran diwygiadau gwleidyddol. Rydym wedi bod yn dadlau dros ragor o rymoedd i Gymru, pleidleisio tecach a gostwng yr oedran pleidleisio, ac rydym yn cefnogi mesurau i annog gwleidyddiaeth sy'n fwy agored ac atebol.

Mae angen i'n system bleidleisio newid, i sicrhau'r grym mwyaf i bleidleiswyr, a'u galluogi i gefnogi cynrychiolwyr o'u dewis heb ofni gwastraffu eu pleidlais, ac i sicrhau aelodau etholedig sy'n wirioneddol atebol.

Mae'n rhaid gwneud rhagor i sicrhau fod ein gwleidyddiaeth a'n sefydliadau gwleidyddol yn adlewyrchu amrywiaeth pobl a chymunedau Cymru, a bod gan ein harweinwyr gwleidyddol rymoedd i weithredu er ein lles pennaf.

Mae Cymru'n wynebu'r bygythiad dirfodol mwyaf i'w hymreolaeth wleidyddol ers datganoli. Mae Llywodraeth Geidwadol San Steffan wedi tanseilio grymoedd Cymru



mewn meysydd datganoledig megis amaethyddiaeth a safonau bwyd, ac wedi torri ei haddewid i sicrhau arian yn lle bob ceiniog o gyllid yr UE trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Rydym yn condemnio'r ymdrechion hyn i danseilio setliad datganoli – setliad sydd wedi cael ei gymeradwyo gan bleidleiswyr ddwywaith mewn refferenda. Byddwn yn parhau i wrthwynebu ymdrechion y Ceidwadwyr i wrthdroi datganoli ac ymreolaeth yng Nghymru.

### **Byddwn yn:**

- 1. Gweithio i gyflawni Cymru gryfach fel rhan o Deyrnas Unedig ffederal, â grymoedd cyllidol a grymoedd eraill yn cael eu trosglwyddo'n syth i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo â'n hadfywiad.**
- 2. Cydweithio â dinasyddion i lunio ein dull o ymdrin â heriau trwy raglen o Gynulladau Dinasyddion wedi'u hariannu'n briodol i ddatblygu hyder a chefnogaeth i fesurau.**
- 3. Cyflwyno system bleidleisio gyfrannol, ar gyfer etholiadau'r Senedd a holl etholiadau awdurdodau lleol**

### **Teyrnas Unedig Ffederal**

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dadlau o blaid Teyrnas Unedig ffederal ers tro. Mae hyn yn golygu llawer mwy na datganoli; mae'n golygu fod gan bob rhan o'r Deyrnas Unedig rym dros eu materion eu hunain fel mater o hawl cyfreithiol y gellir ei orfodi, fel rhan o gyfansoddiad ysgrifenedig ehangach ar gyfer y DU.

Dan system o'r fath, ni allai San Steffan wrthdroi neu weithredu tu hwnt i setliad datganoli, fel mae Llywodraeth Geidwadol San Steffan yn ceisio'i wneud ar hyn o bryd.

Byddai penderfyniadau ynghylch dyfodol Cymru o fewn Teyrnas Unedig ffederal yn cael eu gwneud yng Nghymru, â chydysniad pobl Cymru, ac â phleidlais atal gyfansoddiadol absoliwt dros unrhyw newid yn y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ddiwygiedig a'i rhannau cyfansoddol.

Nid ydym yn amddiffyn y drefn. Ni yw'r unig blaid sy'n credu mewn diwygio yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Mae gweledigaeth y Democratiaid Rhyddfrydol yn un sy'n creu Cymru ymreolaethol, ble gwneir penderfyniadau gan sefydliadau democrataidd Cymru; mae'n weledigaeth sy'n osgoi creu rhwystrau newydd hefyd.

Ers gadael yr UE, mae Cymru wedi gweld y problemau sy'n codi wrth greu ffiniau newydd. Credwn mewn chwalu ffiniau, nid eu codi; Teyrnas Unedig ffederal yw ein dull o gyflawni dyheadau am ymreolaeth gan sicrhau y gall pobl barhau â'u bywydau heb wynebu mesurau rheoli ffiniau; wedi'r cyfan, bydd degau o filoedd o bobl yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ddyddiol, i'r ddau gyfeiriad, i weithio a chynnal busnesau, neu i ymweld â theulu a ffrindiau y tu draw i'r ffin.

### **Grym i gymunedau**

Yn ystod y pandemig, rydym ni oll wedi gweld beth all cynghorau lleol ei wneud er budd ein cymunedau. Fe wnaethant reoli gwasanaethau allweddol, o ddsbarthu PPE i ddanfôn nwyddau at bobl oedd yn amddiffyn eu hunain, cydlynu rhwydweithiau o wirfoddolwyr, codi arian i'r sawl a gafodd eu heffeithio gan y pandemig, ymgartrefu dros 7,000 o bobl a oedd yn wynebu digartrefedd, dosbarthu grantiau i fusnesau, a throï ysgolion yn ganolfannau gofal plant. Mae ein dyled i staff ein cynghorau yn enfawr.

Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i'n cynghorau newid i ateb heriau'r dyfodol a sicrhau eu bod yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddynt. Mae llawer o bobl yn teimlo'u bod wedi colli cysylltiad â democratiaeth a cholli grym yn eu cymunedau. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu hanwybyddu ac yn methu cael gwrandawriad. Gwneir penderfyniadau mewn ffyrdd nad yw'n hawdd i'w deall gan y bobl maent yn eu cynrychioli. Mewn rhai achosion, gwneir penderfyniadau gan bobl sy'n cynrychioli cymunedau sydd fwy nag awr oddi wrth y sawl sydd wedi'u heffeithio mewn gwirionedd.

Mae ymdrechion Llywodraeth Cymru i ad-drefnu llywodraeth leol wedi methu denu cefnogaeth eang gan gynghorau neu'r cyhoedd.

Credwn mai'r egwyddor allweddol ar gyfer llywodraeth leol fydd sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu ar y raddfa ddaearyddol isaf sy'n bosibl i'w gweithredu'n effeithlon a medrus ac i sicrhau trosolwg democrataidd effeithiol. Dylai ardaloedd llywodraeth leol fod yn ardaloedd ystyrion y gall preswylwyr uniaethu'n rhwydd â hwy, gan adlewyrchu cysylltiadau daearyddol a chymunedol.

Rydym yn rhagweld strwythur newydd o gynghorau 'Cantrefi' trwy uno ardaloedd trefi a chymunedau yn unedau ystyrion ac effeithlon i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus â mwy o atebolrwydd ac ymreolaeth yn lleol.

### **Byddwn yn:**

- Gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru lunio cynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol, trwy uno ardaloedd trefi a chymunedau yn gyrff ystyrion ac atebol.

- Ymchwilio i greu nifer lai o awdurdodau rhanbarthol mwy ar gyfer rhannau o Gymru sydd â nodweddion cyffredin (dinas-ranbarthau, y cymoedd, canolbarth Cymru wledig, Gogledd Cymru), â chyfrifoldeb am gynllunio strategol, datblygu'r economi a chludiant.
- Ymchwilio i newidiadau i'r dull o gyllido llywodraeth leol, gan gynnwys sefydlu trefn yn lle'r Dreth Gyngor.
- Sefydlu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn achos pob etholiad, i sicrhau pleidleisiau teg ym mhob cymuned.
- Ymchwilio i ganfod pa swyddogaethau, gwasanaethau a chyfrifoldebau rheng flaen y dylid eu trosglwyddo o'r prif gynghorau i'r lefel isaf bosibl.
- Buddsoddi mewn technoleg newydd, fel y gall Llywodraeth Cymru ddatblygu canolfannau cymorth o ansawdd uchel yn seiliedig ar TG, a fyddai'n cynorthwyo cynghorau llai i wneud penderfyniadau effeithiol.

### **Datganoli cyllidol**

Mae grymoedd Llywodraeth Cymru i greu polisi economaidd yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae grymoedd trethu a benthycy'r Senedd yn gyfyngedig iawn, ac mae hynny'n ddibynol ar benderfyniadau ariannol San Steffan. Fe wnaeth pandemig Covid-19 amlygu hyn yn glir.

Yn ychwanegol, mae methiant Llywodraeth Geidwadol San Steffan i gyflawni ei haddewid i ddarparu arian yn lle cyllid yr UE trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a pharhad argyfwng diffyg buddsoddi yng Nghymru, wedi dangos fod angen mwy o ddatganoli cyllidol. Mae angen i ni allu gwneud y penderfyniadau economaidd mawr yma yng Nghymru, yn unol â'r blaenoriaethau a bennir gan y Senedd ac mewn modd sy'n atebol i bobl Cymru.

Felly, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dadlau am fwy o ddatganoli cyllidol. Yn y Senedd nesaf, byddwn yn pwysu am fwy o rymoedd benthycy, ac am fwy o ryddid ac ymreolaeth wrth glustnodi gwariant.

### **Gwleidyddiaeth sy'n llwyddo i Gymru a phobl Cymru**

Mae democratiaeth yn wynebu argyfwng o ran ymddiriedaeth a dilysrwydd. Mae pobl yn teimlo eu bod ar ei hôl hi, wedi'u hanghofio a'u hanwybyddu. Mae gormod o bobl yn ystyried nad ydynt yn cael eu cynrychioli ymhlith y sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r cydbwysedd rhwng y llywodraeth ac aelodau'r Senedd sydd â rhwydd hynnt i archwilio penderfyniadau gweinidogion wedi'i gam-ystumio ar hyn o bryd, sy'n golygu na ellir dal y sawl sydd mewn grym i gyfrif yn briodol. Nid oes gan Senedd Cymru yr

offerynnau mae arni eu hangen i ateb disgwyliadau presennol pobl Cymru, heb sôn am gyflawni ein dyheadau ar gyfer Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer Aelodau'r Senedd i rhwng 80 a 90, yn unol ag argymhellion Adolygiad McAllister. Dylid sicrhau fod y dewis hwn yn niwtral o ran costau trwy gyfrwng y lleihad a gynllunnir gan Lywodraeth y DU yn nifer yr ASau yn San Steffan.

Rydym wedi ymrwymo i wella amrywiaeth ein gwleidyddiaeth. Er bod cynnydd tuag at sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Senedd yn ganmoladwy, mae'n fregus. Mae cynrychiolaeth gan fenywod mewn llywodraeth leol gryn dipyn ar ei hôl hi o'i gymharu â'r Senedd, ac nid oes unrhyw fenyw groenliw wedi cael ei hethol yn aelod o'r Senedd yn ei hanes un mlynedd ar hugain. Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau mewn gwleidyddiaeth ar bob lefel yn rheolaidd.

Rhaid ymdrin â hyn ac rydym yn barod i wneud ein rhan i fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw.

#### **Byddwn yn:**

- Cyflwyno rhaglen o Gynulladau Dinasyddion a fydd yn gyfrifol am ddeall, cytuno, a llunio argymhellion a champau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion mawr sy'n wynebu ein gwlad yn y blynyddoedd nesaf. Gall hyn gynnwys cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, argyfwng yr hinsawdd, a gwariant cyhoeddus.
- Cynyddu nifer Aelodau'r Senedd i 80-90
- Cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ym mhob etholiad yng Nghymru.
- Sicrhau cyllid digonol ar gyfer rhaglenni sy'n cynorthwyo pobl nad yw'n cael eu cynrychioli'n draddodiadol mewn gwleidyddiaeth i allu dal swyddi cyhoeddus, gan gynnwys mynd i'r afael ag aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu mewn bywyd cyhoeddus.

#### **Datrys ein system cynllunio**

Bydd cymunedau'n teimlo'n gynyddol ddi-rym pan wneir penderfyniadau cynllunio mewn system nad yw pobl yn ei deall ac un y maent yn teimlo'n ddi-rym i ddylanwadu arni.

Byddwn yn gweithredu newidiadau i gyfraith cynllunio i ddod â phreswylwyr lleol a chynllunwyr ynghyd fel y gallwn ddarparu'r cartrefi newydd sydd eu hangen arnom mewn modd sy'n cyd-fynd â hunaniaeth a blaenoriaethau cymunedau. Bydd egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r dull hwn.

Trwy gryfhau cyfraith cynllunio, byddwn yn sicrhau fod gan gymunedau lais ystyrllon yn ystod y broses cynllunio. Bydd hyn yn newid radicalaidd o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol, lle bydd preswylwyr a datblygwyr yn cystadlu â'i gilydd.

Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion cymdogaeth 20 munud ym mhob gwaith cynllunio a phenderfyniadau, gan sicrhau y gallwch gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus o fewn 20 munud ar droed, ar feic, neu mewn cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys manau siopa lleol, cyfleusterau iechyd, ysgolion, manau gwyrdd a meysydd chwarae, a chyfleoedd cyflogaeth.

Bydd ein newidiadau arfaethedig i gynllunio hefyd yn rhoi grymoedd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio a herio penderfyniadau cynllunio sy'n groes i'r egwyddorion hyn. Byddwn yn parhau i gryfhau darpariaeth yn y gyfraith i sicrhau na wnaiff penderfyniadau cynllunio effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.

Mae'n rhaid gwneud rhagor i sicrhau fod cymunedau lleol yn elwa'n ddi-oed o fuddsoddiad gan ddatblygwyr - gan roi terfyn ar y sefyllfa gyffredin iawn lle bydd awdurdodau lleol a chymunedau yn colli cyfle i gael cyllid i ariannu ffyrdd, parciau a seilwaith, er gwaethaf cytundebau neu addewidion cychwynnol.

### **Byddwn yn:**

- Cymeradwyo Deddf Cynllunio newydd ar gyfer Cymru i chwyldroi'r system cynllunio, gan sicrhau system decach a fwy tryloyw ar gyfer preswylwyr a datblygwyr.
- Rhoi grymoedd ac adnoddau i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i graffu ar benderfyniadau cynllunio a'u herio.
- Diweddarau a gwella deddfwriaeth amddiffyn coed fel rhan o Ddeddf Cynllunio newydd Cymru
- Sefydlu Treth Datblygiadau yn lle cytundebau Adran 106
- Mabwysiadu egwyddor cymdogaethau 20 munud ym maes cynllunio.
- Sefydlu Cronfa Effaith Mudwyr wedi'i hariannu'n ganolog i helpu cymunedau lleol i addasu i fudo newydd ac ymateb i bwysau annisgwyl ar wasanaethau cyhoeddus a thai.
- Ymdrin â heriau yn ymwneud â chartrefi gwyliau, ail gartrefi, ac eiddo a ddefnyddir i'w gosod am wyliau byr, a chryfhau cynllunio iaith fel rhan o ddeddfwriaeth cynllunio.

## **Atodiad 1: Blaenoriaethau Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ar gyfer y Chweched Senedd**

Mae deddfwriaeth dda, eglurder o ran cyfeiriad a llywodraeth gefnogol yn hanfodol i sicrhau rhagoriaeth i bobl Cymru. Rydym yn sylweddoli maint yr her o ymateb i'r hinsawdd bresennol a bwrw ymlaen â deddfwriaeth newydd. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o opsiynau i ymdrin â'r materion a'r blaenoriaethau rydym yn eu nodi yn y maniffesto hwn.

### **Adfywiad er lles ein Cymunedau**

- Deddf Tai
- Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i atal digartrefedd
- Mesurau ynghylch Ail Gartrefi a chartrefi a osodir am wyliau byr
- Deddf Grymuso Cymunedau

### **Adfywiad er lles ein Planed**

- Deddf Cartrefi Gwyrdd
- Deddf Natur
- Deddf Aer Glân
- Deddf Bywyd Gwyllt i Gymru
- Strategaeth Coed a Choetiroedd ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru

### **Adfywiad Gofalgar**

- Deddf Hawliau Gofal Iechyd
- Diwygiad i'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio
- Gwarcheidwaid Rhyddid i Godi Llais yn y GIG
- Cyflwyno Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd wrth gaffael, comisiynu a chynllunio.
- Ehangu Mesur y Gymraeg 2011 i gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gofal clinigol y GIG yn Gymraeg
- Cyflwyno moratoriwm di-oed ar gytundebau preifat er elw mewn rhannau penodol o'r system gofal, yn cynnwys gofal preswyl plant ac unedau diogel i'r sawl sydd ag anableddau dysgu.
- Diffinio swyddogaeth statudol ar gyfer gwaith ieuenctid trwy gyfrwng deddfwriaeth
- Deddf Comisiynu Gofal Cymdeithasol, yn cwmpasu:
  - Gweithredu newidiadau ysgubol i gomisiynu, gan roi mwy o rym i gomisiynwyr lleol, ac i'r bobl eu hunain fel y gallant ganfod eu gwasanaethau eu hunain.
  - Cyflwyno deddfwriaeth ofynnol i alluogi creu Gwasanaeth Gofal Gwladol

### **Adfywiad ym maes Addysg**

- Dewis Addysgu Gartref
- Y Gymraeg i Bawb
- Hawl i Ddysgu Gydol Oes
- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer Cymru
- Gwelliant i reoliadau teithio cludiant o'r cartref i'r ysgol
- Siarter iechyd meddwl y gweithlu addysg

### **Adfywiad er lles ein Heconomi**

- Deddf Datblygu'r Economi
- Deddf Bysys
- Deddf Caffael gan y Bobl
- Deddf Cynllunio Cymru
- Hawl y Gymuned i Brynu

### **Adfywiad sy'n Seiliedig ar Hawliau**

- Ehangu'r ddyletswydd i Ofyn a Gweithredu y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru).
- Cyflwyno Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol fel rhan o brosesau caffael y sector cyhoeddus
- Gweithredu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol
- Bil Hawliau i ymgorffori Confensiynau'r CU yng nghyfraith Cymru, yn cynnwys: Hawl i gael Cartref Addas, Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl, Confensiwn y CU ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn.

### **Adfywiad Democrataidd**

- Sefydlu cynrychiolaeth gyfrannol ym mhob etholiad ledled Cymru
- Bydd amrywiaeth o opsiynau deddfwriaethol yn cael eu hystyried i ehangu setliad datganoli, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
  - Gweithio i ddatganoli cyfiawnder troseddol
  - Gweithio i sefydlu polisiâu radicalaidd i leihau niwed
  - Gwrthod cydsyniad deddfwriaethol, lle bo hynny'n gymwys, i ddiddymu hawliau Prydeinig i brotestio a threfnu
  - Gweithio i sicrhau datganoli cyllidol

## **Atodiad 2: Atodiad Costau**

Mae Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymrwymo i gynhyrchu manifestos yn cynnwys manylion costau. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd economaidd bresennol, o ran dangos cyfrifoldeb a hyder, ond hefyd i ddarparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch ein cyfeiriad yn ystod y blynyddoedd i ddod.

### **Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o wariant pan ddaw cyfnod y pandemig i ben i lywio adfywiad gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.**

Bydd yr adolygiad o wariant, yn benodol, yn cyd-fynd â'n rhaglen cyfalaf â'n blaenoriaethau ynghylch y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig rhoi terfyn ar dlodi tanwydd. Byddwn yn parhau â'r egwyddorion presennol o waith teg, benthyca darbodus ac effeithlonedd parhaus yn y llywodraeth.

Byddwn yn defnyddio adnoddau a ddarperir gan gynnydd yng nghyllid y GIG ac egwyddorion yr economi sylfaenol fel sail i'n hymrwymadau i gyflog uwch ac amodau gwaith teg i staff gofal cymdeithasol.

Bydd ein rhaglen ar gyfer llywodraeth yn cynnwys prosiectau yn yr arfaeth a fydd yn barod i'w cychwyn wrth i'r pandemig gilio ac wrth i ragor o arian ddod ar gael ar gyfer yr adfywiad. Caiff y rhain eu blaenoriaethu ar sail y rhai a fydd yn sicrhau'r buddion economaidd a chymdeithasol mwyaf.

### **Rydym wedi darparu costau amcangyfrifedig ar gyfer y blaenoriaethau rydym ni'n eu disgrifio yn y manifesto hwn, ar sail ystod o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'r tabl isod yn amlinellu amcanestyniadau ar gyfer ein cynnigion petai unrhyw un o'r cynnigion yn cael ei gyflawni yng nghyllideb cyntaf Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.**

Wrth wneud hynny, rydym yn rhagdybio ac yn rhagweld nifer o elfennau ar sail cyllidebau presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwneud hynny ag ansicrwydd sylweddol ynghylch lefelau cyffredinol gwariant cyhoeddus a refeniw trethi yn y dyfodol o ganlyniad i'r pandemig a Brexit. Rydym yn rhagdybio nifer o elfennau, sef y bydd gwariant beunyddiol Llywodraeth y DU yn cynyddu yn ôl y bwriad yn ystod cyfnod y senedd hon, â chanlyniadau i wariant Cymru.

Rydym hefyd yn rhagdybio y bydd gwariant ar iechyd yn is na lefelau 2021/2022, ond ni fydd yn gostwng mwy na thua £7 biliwn, gan adlewyrchu'r duedd i gynyddu gwariant ar iechyd yn ystod blynyddoedd diweddar. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun ein



hymrwymiadau i gynyddu lefelau cyffredinol gwariant ar iechyd meddwl a meddygaeth teulu.

Mae'n bwysig nodi hefyd, er na ddarperir hynny yn ein maniffesto, ein bod yn gwybod y bydd gan lawer o'n cynigion oblygiadau cadarnhaol i'n heconomi. Er enghraifft, rydym yn gwybod y ceir oblygiadau economaidd cadarnhaol sylweddol yn sgil cynnydd mewn gwariant ar ofal plant, ôl-osod mewn tai, adeiladu tai, a chymorth busnes o ran gweithgarwch economaidd unigolion, lliniaru tlodi, ysgogiad economaidd uniongyrchol, a llai o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn y tymor canol a'r tymor hir. Darperir rhai o'r enghreifftiau hyn mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

**Gwariant o £1 biliwn y flwyddyn ar argyfwng yr hinsawdd:** Mae hyn yn becyn o gyllid ar draws ffynonellau'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai hyn gynnwys cyfuniad o ail-lunio ac aildrefnu cyllid presennol, a chyllid newydd i helpu i ddatgloi ac ysgogi cyllid gan y sector preifat. Credwn y bydd amlinellu cynlluniau seilwaith tymor hir trwy Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a'n Bil Datblygu'r Economi yn darparu sicrwydd tymor hir i annog buddsoddwyr, datblygwyr, contractwyr ac eraill i fuddsoddi. Mae ein ffigurau yn seiliedig ar y rhai a gyhoeddwyd yng Nghynllun 10 Pwynt Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ariannu'r ymateb i argyfwng hinsawdd Cymru.

Mynegir y ffigurau fel £000 ac maent yn cynnwys ymrwymadau referniw a chyfalaf

Polisi	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	Cyfanswm y tymor
<b>Adfywiad Gofalgar</b>						
Cynnydd blynyddol mewn gwariant ar iechyd meddwl i gyflawni targed o 13% o gyllideb y GIG ar iechyd meddwl erbyn 2028	£30,000	£30,000	£30,000	£25,000	£25,000	£140,000
Buddsoddi mewn cymorth iechyd meddwl i weithlu'r GIG	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	£35,000
Cyllid ychwanegol i gyflawni Cyflog Byw Go lawn ar gyfer staff gofal cymdeithasol	£13,000	£13,000	£13,000	£13,000	£13,000	£65,000
Buddsoddi mewn meddygon teulu, gan sicrhau mynediad gwell ac un cofnod iechyd ar gyfer pob claf	£30,000	£30,000	£30,000	£25,000	£25,000	£140,000
<b>Adfywiad ym maes Addysg</b>						
Parhau i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim yn ystod gwyliau'r ysgol wedi 2022 ac ehangu rhaglenni Bwyd a Hwyl	£28,000	£28,000	£28,000	£28,000	£28,000	£140,000
Rhoi terfyn ar allgau digidol mewn addysg statudol	£40,000	£1,300	£1,300	£1,300	£1,300	£45,200
Peilot i roi terfyn ar allgau digidol mewn addysg bellach ac uwch	£10,000	-	-	-	-	
Cyllid i'n hysgolion i gyflawni Deddf newydd Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg a'r Fframwaith Cwricwlwm ac Asesu	£120,000	£120,000	£120,000	£120,000	£120,000	£600,000

Ysgolion Bro	£3,500	£3,500	£3,500	£3,500	£3,500	£17,500
Cyfrifon Dysgu Personol	£12,000	£12,000	£12,000	£12,000	£12,000	£60,000
<b>Adfywiad er lles ein Heconomi</b>						
Rhewi ardrethi busnes am y 5 mlynedd nesaf	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£50,000
Cronfa Cymorth Buddsoddi mewn Busnesau	£35,000	£35,000	£35,000	£25,000	£25,000	£155,000
Cronfa Trefi Cymru	£100,000	£100,000	£100,000	£100,000	£100,000	£500,000
Gofal plant	£95,000	£95,000	£95,000	£95,000	£95,000	£475,000
Prynu dyled drwg	£50	£50	£50	£25	£25	£200
<b>Adfywiad er lles ein Cymunedau</b>						
Grant Cymorth Tai	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000	£25,000
Ôl-osod tai i'w gwyrddu	£350,000	£350,000	£350,000	£350,000	£350,000	£1,750,000
Teithio am ddim ar fsys i bobl ifanc 16-24 oed	£7,000	£7,000	£8,000	£8,000	£8,000	£38,000
Teithio Llesol	£60,000	£60,000	£60,000	£60,000	£60,000	£300,000
Cadw Cymru'n Greadigol	£10,000	£10,000	£5,000	-	-	£25,000
Cadw Cymru'n Egniol	£2,000	£2,000	£1,000	£500	£500	£6,000
<b>Adfywiad o ran Gymraeg</b>						
Cynllunio'r gweithlu cyfrwng Cymraeg (addysg a gofal)	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£10,000	£50,000

<b>Adfywiad Democrataidd</b>						
Cynulliadau Dinasyddion	£250	£250	£250	£250	£250	£1,250